



Dafydd ap Gwilym.net

Traddodiad y Llawysgrifau

Dafydd Johnston

Ceir nodiadau gwerthfawr ar y prif gasgliadau yn GDG¹ cix–clxix, ynghyd â thabl yn dangos eu perthynas. Cam sylweddol ymlaen yn ein dealltwriaeth o drosglwyddiad y cerddi oedd erthygl Daniel Huws, ‘The Transmission of a Welsh Classic: Dafydd ap Gwilym’ (MWM 84–103), lle trafodir cychwyn petrus y traddodiad ysgrifenedig yng nghanol y 15fed ganrif ar ôl cyfnod o drosglwyddiad llafar, a thwf casgliadau y Dadeni. Disgrifir llawer o’r llawysgrifau gan J. Gwenogvryn Evans yn ei *Report on Manuscripts in the Welsh Language* (1898–1910), ond mae’r drafodaeth isod yn ddyledus yn bennaf i ddisgrifiadau Daniel Huws yn ei *Repertory of Welsh Manuscripts* (i ymddangos).

O fwrw golwg dros y traddodiad llawysgrifol yn ei gyfanrwydd daw pwysigrwydd rhai ardaloedd i’r amlwg, ac fe welir bod canolbwynt y gweithgarwch yn symud o gyfnod i gyfnod, gan gwmpasu’n fras bedwar ban Cymru. Fel y gellid disgwyl, i ardal Dafydd ap Gwilym ei hun yng Ngheredigion y perthyn yr ychydig destunau a orosodd o’r 14eg ganrif. Efallai fod tair o lawysgrifau cynharaf y ganrif ddilynol, sef Pen 57 (rhan i), Pen 48 a Pen 52, hefyd yn perthyn i’r de-orllewin, ond yn y de-ddwyrain y digwyddodd y prif weithgarwch yn ail hanner y 15fed ganrif. Pen 54 yw’r llawysgrif bwysicaf sydd wedi goroesi o’r de-ddwyrain, ac o’r ardal honno y tarddai’r casgliadau coll yn Llyfr Gwyn Hergest a Llyfr Wiliam Mathew. Erbyn yr 16fed ganrif roedd y canolbwynt wedi symud i’r gogledd-ddwyrain, a Dyffryn Clwyd yn arbennig, yn sgil cryfder y traddodiad barddol yn y rhan honno o’r wlad o ddyddiau Dafydd ab Edmwnd ymlaen. Mae’n debyg mai yn yr ardal honno yr ymffurfiodd y casgliad mawr a alwyd gan John Davies yn ‘vetustus codex’ (er bod y testunau cysylltiedig yn Pen 48 efallai’n awgrymu fod o leiaf un haen yn tarddu o’r de-orllewin). Dyma’r hyn a alwodd Thomas Parry yn ‘gynsail y gogledd’, ond mewn gwirionedd mae’r term hwnnw’n rhy amrwd. Daw ffrydiau testunol annibynnol i’r amlwg yn ail hanner y 16fed ganrif yng Ngwynedd Uwch Conwy, a Dyffryn Conwy ei hun yn arbennig, ac mae’n debyg bod y rhain yn deillio i raddau o draddodiad llafar a barhaodd yn hwy yn yr ardal honno nag mewn rhannau eraill o Gymru. Manteisiodd rhai o’r Dyneiddwyr ar ddwy ffrwd y gogledd, fel y gwelir yng nghasgliadau Thomas Wiliems (H 26) a Jaspas Gryffyth (G 3 a LI 120), ond John Davies, Mallwyd, yw’r unig un a lwyddodd i gyfuno traddodiadau’r de

a'r gogledd yn Pen 49, y pwysicaf o gasgliadau'r Dadeni, a'r unig un hefyd i gofnodi tystiolaeth am ei ffynonellau.

Llawysgrifau'r 14eg ganrif

Tair cerdd yn unig a oroesodd mewn llawysgrifau o gyfnod Dafydd ap Gwilym ei hun, dwy ohonynt yn Llawysgrif Hendregadredd ac un yn Llyfr Gwyn Rhydderch. Testunau eilaidd yw'r tri gan eu bod wedi'u hysgrifennu mewn gofod gwag yn y llawysgrifau. Mae'n debygol, serch hynny, fod rhif 171 hefyd yn Llawysgrif Hendregadredd yn wreiddiol, mewn rhan o'r llawysgrif sydd bellach ar goll.

Llawysgrif Hendregadredd

Casgliad o gerddi Beirdd y Tywysogion yw prif gynnwys y llawysgrif hon, ac fe'i lluniwyd yn ôl pob tebyg yn Abaty Ystrad-fflur tua dechrau'r 14eg ganrif (gw. Daniel Huws, 'The Hendregadredd Manuscript', MWM 193–226). Fe ymddengys i'r llawysgrif fynd i feddiant Ieuan Llwyd o Lyn Aeron yn ystod ail chwarter y 14eg ganrif, ac fe ychwanegwyd nifer o gerddi cyfoes yr adeg honno. Un o'r rheini yw'r englynion i Grog Caerfyrddin (rhif 1) a ysgrifennwyd mewn gofod gwag dros dri thudalen (ff. 120r, 120v, 121r). Teitl y gerdd yn y llawysgrif yw 'Eglynion a gant dauid llwyd uab gwilim gam yr groc o gaer', a dyna'r unig enghraifft yn y llawysgrifau o enw llawn y bardd. *Textura* yw'r sgrïpt, a dyna a ddisgwyliid gan un a ddysgai ysgrifennu yn Ystrad-fflur tua 1330. Mae'r ysgrifen braidd yn anghyson ac anystwyth, ac mae'n amlwg nad yw'n llaw ysgrifydd proffesiynol. Dengys y marwnadau i Angharad, gwraig Ieuan Llwyd, a'u mab Rhydderch (rhifau 9 a 10) fod gan Ddafydd gyswllt â llys Glyn Aeron. O'r tri thestun cyfoes, hwn yw'r un mwyaf tebyg o fod yn llaw'r bardd ei hun ym marn Daniel Huws (MWM 221–2). Ni ellir profi'r mater, ond fe erys yn bosibilrwydd cryf. Hwn yw'r unig gopi o'r gerdd, ac felly anodd yw barnu ansawdd y testun, ond fe ymddengys yn bur dda ar y cyfan, er ei fod yn anodd neu'n amhosibl ei ddarllen mewn manau (gw. ymhellach nodiadau rhif 1).

Y gerdd arall yn Llawysgrif Hendregadredd yw'r farwnad i Angharad, gwraig Ieuan Llwyd (rhif 9), a ysgrifennwyd mewn sgrïpt rhedol gan law brofiadol o'r 14eg ganrif ar dudalen olaf y llawysgrif (ff. 130v). Mae'n bosibl bod Angharad yn dal yn fyw pan gyfansoddwyd y farwnad (gw. nodiadau'r gerdd). Nid oes teitl na phriodoliad i'w gweld, ond fe ddichon eu bod ar frig y ddalen yn wreiddiol. Goroedd y gerdd mewn nifer o destunau diweddarach annibynnol, ac o'u cymharu gwelir bod testun Hendregadredd yn gyflawn (er yn anodd iawn ei ddarllen mewn manau), a'i fod wedi diogelu rhai darlleniadau unigryw.

Mae rheswm da i gredu bod y testun o gerdd ddienw yn cwyno am golli gwallt (rhif 171) a gadwyd mewn llawysgrif o'r 17eg ganrif yn deillio o blyg coll o Llawysgrif Hendregadredd (gw. y nodiadau ar y gerdd). Os mai gwaith Dafydd ap Gwilym yw'r gerdd hon, yna mae'r nifer o'i gerddi a oroesodd mewn llawysgrifau cyfoes yn cynyddu i bedair.

Llyfr Gwyn Rhydderch (Peniarth 5)

Lluniwyd y llawysgrif fawr hon ar gyfer Rhydderch ab Ieuan Llwyd (gwrthrych ffug-farwnad gan DG, rhif 10) tua 1350 (gw. Daniel Huws, 'Llyfr Gwyn Rhydderch', MWM 227–68). Ysgrifennwyd 'Englynion y Cusan' (rhif 84) mewn gofod gwag ar ff. 65v mewn sgrïpt rhedol yn ystod ail hanner y 14eg ganrif. Hwn yw'r unig gopi o'r gerdd.

Trosglwyddiad llafar

Ar ôl yr ychydig destunau sy'n perthyn i gyfnod y bardd ei hun, y mae bwlch o ryw gan mlynedd heb ddim byd ysgrifenedig o waith DG. Gellid disgwyl gweld rhai o'i gerddi ymhlith y casgliad o farddoniaeth y 14eg ganrif yn Llyfr Coch Hergest a luniwyd oddeutu 1400, gan fod peth o waith Gruffudd Gryg, Iolo Goch a Llywelyn Goch yno, ond ni cheir yr un. Tybed a oedd gan Hopcyn ap Tomas gasgliad o gerddi DG mewn llawysgrif ar wahân (un a fu o bosibl yn gysail i'r casgliad yn Llyfr Gwyn Hergest os aeth i feddiant teulu'r Fychaniaid gyda'r Llyfr Coch)? Fodd bynnag, heblaw un cywydd cywrain iawn gan Iolo Goch, awdlau ac englynion yn unig a geir yn y Llyfr Coch, a phrin iawn yw'r copïau o gywyddau cyn canol y 15fed ganrif (gw. Johnston, 2005, 104–5). Efallai fod rhai llawysgrifau a gynhwysai gywyddau wedi'u colli, ond esboniad mwy argyhoeddiadol am yr absenoldeb yw mai i faes traddodiad llafar yn bennaf y perthynai cywyddau serch a natur yn ystod y cyfnod hwnnw oherwydd eu naws anffurfiol a phoblogaidd. Er bod perfformiadau llafar yn ddiflanedig o ran eu hanfod, gellir nodi'r dystiolaeth ganlynol dros fodolaeth traddodiad llafar (gw. ymhellach Johnston, 2003):

- i) cyfeiriadau yng ngwaith DG ei hun at yr arfer o ledaenu cerddi trwy wrando, dysgu ar gof ac ailadrodd (24.9–10; 107.21–3);
- ii) darnau gwasgaredig o dystiolaeth am yr arfer o cofnodi cerddi oddi ar dafod leferydd yn yr 16fed ganrif a'r 17eg ganrif, e.e. 'Nis gwyddai'r dyn ai dyfod i mi ar dafod leferydd pwy ai cant' (David Johns tua 1587, BM 29, 262v); gw. ymhellach Bowen, 1964, 29 a MWM 91;
- iii) prinder eithriadol copïau ysgrifenedig o gywyddau cyn canol y 15fed ganrif;
- iv) yr enghreifftiau yn llawysgrifau ail hanner y 15fed ganrif a'r 16eg ganrif o ysgrifennu geiriau cyntaf y llinell yn unig, neu weithiau eiriau cyntaf y cwpled yn unig (e.e. testun rhif 67 yn Pen 55);
- v) yr amrywiaeth mawr o ran trefn llinellau mewn gwahanol fersiynau o rai cywyddau, amrywiaeth na allasai ddigwydd i'r un graddau mewn traddodiad ysgrifenedig.

Llawysgrifau'r 15fed ganrif

Tua chanol y 15fed ganrif yr ymddengys cywyddau DG mewn llawysgrifau am y tro cyntaf. Yr unig llawysgrif a allai fod yn gynharach na 1450 yw rhan gyntaf Pen 57, sydd o bosibl yn perthyn i'r 1440au. Mae lle i gredu bod honno, ac efallai Pen 48 a Pen 52, yn deillio o'r de-orllewin yn wreiddiol, ond llawysgrifau o'r de-ddwyrain yw'r mwyafrif o ail hanner y ganrif (gw. MWM 93–7). Ail ran Pen 57 yw'r unig un â chysylltiadau gogleddol pendant. Casgliadau bychain a thameidiog yw'r rhai cynharaf, fel y disgwylid os oeddent yn deillio o draddodiad llafar (ond cofier fod Pen 57 a Pen 48 yn anghyflawn). Yr unig gasgliadau sylweddol y gwyddys amdanynt o'r 15fed ganrif yw rhai Pen 54 a Llyfr Gwyn Hergest. Mae lle i gredu mai beirdd oedd nifer o gopiŵyr y 15fed ganrif, gan gynnwys Hywel Dafri (Pen 67), Huw Cae Llwyd (Pen 54 a Pen 189), a Gwilym Tew (Pen 51 ac yn ôl pob tebyg Pen 54).

Peniarth 57 (Hengwrt 261, 262)

Papur. 146 x 102 mm. 88ff.

Llawysgrif gyfansawdd sy'n cynnwys dwy ran hollol wahanol o ran dyddiad a lleoliad. Daeth y ddwy ran ynghyd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Argreffir testun y ddwy yn llawn yn E. Stanton Roberts, *Peniarth MS. 57* (Caerdydd, 1921).

(i) tt. 1-78. Cywyddau o'r 14g. ynghyd â rhai o'r 15g.; y diweddaraf yw tri chywydd mawl Guto ap Siancyn i Rys abad Ystrad-fflur (1433-41). Mae tt. 1-63 gan ddwy law yn cydweithio, ac mae tystiolaeth y dyfrnodau a'r llawysgrifen yn gyson â dyddiad yn y 1440au ar gyfer y ddwy. Awgryma ambell air Lladin (e.e. *Idem dauyd*) gefndir eglwysig, a rhesymol yw tybio mai yn Ystrad-fflur ei hun y copiwyd y rhan hon o'r llawysgrif. Ond fe ymddengys iddi fudo i'r de-ddwyrain yn fuan wedyn, lle'r ychwanegodd llawiau eraill gywyddau gan Guto'r Glyn ac eraill i noddwyr o'r ardal honno. Mae'r rhan gyntaf yn cynnwys pump o gywyddau DG, pedwar gyda'i gilydd ar y dechrau (rhifau 91, 122, 141, 136), ac un yn nes ymlaen (rhif 101). Mae'r gerdd gyntaf yn dechrau ar ei hanner, ac awgryma'r priodoliad 'dauydd heuyd' fod rhagor o waith DG yn ei rhagflaenu.

(ii) tt. 79-176. Cywyddau o'r 14g. a'r 15g., gan ddwy brif law ac wyth llaw arall, i gyd yn rhai gweddol drwsogl. Ymddengys y llawiau hyn yn rhai o ddiwedd y 15g. Ychwanegiad yw'r nodyn ar t. 171 sy'n crybwyll Edward mab Harri VIII. Awgryma'r beirdd a'u noddwyr fod y rhan hon o'r llawysgrif yn perthyn i'r gogledd-ddwyrain. Ceir chwe cherdd wrth enw DG gan y ddwy brif law, sef rhifau 109, 116, A25, 54, 4, A70 (ond rhif 164 gan law arall ac yn ddi-enw'n wreiddiol). Mae testunau rhifau 4, 109 a 116 yn debyg i rai'r *Vetustus*, a thestun rhif 54 yn debyg i un H 26. Dylid ystyried hon, felly, gyda llawysgrifau gogleddol eraill o ran gyntaf yr 16eg ganrif a drafodir isod yng nghyd-destun y *Vetustus*.

Peniarth 48 (Hengwrt 450)

Memrwn. 146 x 102 mm. 10ff.

Darn o lawysgrif, wedi'i hysgrifennu yn ail hanner y 15g. Ar tt. 3-18 ceir saith cywydd a briodolir i Ddafydd ap Gwilym, sef rhifau 83, 22, 144, 117, 60, 147 a 4, ac un testun anorffen ac felly dienw (rhif 153). Mae'r cwbl gan un ysgrifwr yn ysgrifennu un neu ddwy o gerddi ar y tro: mae newid inc a phluen ar tt. 4, 7, 10 a 14. Ceir argraffiad diplomataidd o'r testun gan Timothy Lewis yn *Aberystwyth Studies* 14 (1936), 35-51. Mae Timothy Lewis yn tynnu sylw at arfer anghyffredin yr ysgrifwr o wahaniaethu rhwng *d* derfynol yn dynodi –d (heb gwt) a *d* derfynol yn dynodi –dd (gyda chwt). Mae tt. 1-2 a 19-20 yn ddail yn tarddu o lawysgrif arall a ddefnyddiwyd yn gloriau. Ar tt. 1-2 ceir testun yn Gymraeg ar gynnal llysoedd yn siroedd Caerfyddin ac Aberteifi, *temp* Harri VII. Mae hynny efallai yn awgrymu lleoliad ar gyfer y llawysgrif, ac mae rhai nodweddion tafodieithol yn y testunau hefyd yn awgrymu tarddiad deheuol, sef: *disgyblon* (yr unig enghraifft o hepgor *i* gytseinol), *iown-*, *mowr-*, *huowdl*, *iown*, *gimin*, *dior* (= *dioer*), *eiste*, *doth*, *iewn* (x2), *pynkie*, *thale*, *bie* (y tri gair hyn yn yr un gerdd, 147, ac yn adlewyrchu'r gynsail felly?), *kyredic*, *gore* (x4 yn 153). Mae'r cywydd ar tt. 4-7 (rhif 22) yn cynnwys diwygiadau yn llaw Wiliam Llŷn, rhai wedi'u hysgrifennu dros y testun gwreiddiol, rhai yn ychwanegiadau ymyl y ddalen. Dengys trefn y cerddi a'r darlleniadau fod y testunau hyn yn perthyn i draddodiad y Vetustus (gw. isod).

Peniarth 52 (Hengwrt 135)

Memrwn. 140 x 118 mm. 22ff.

Llawysgrif fechan o ail hanner y 15g. gan bedair llaw, y gyntaf a'r bedwaredd ohonynt yn copïo gwaith Dafydd Nanmor, yr ail a'r drydedd yn copïo cywydd bob un o waith Dafydd ap Gwilym (sef rhifau 15 a 49). Yr oedd gan y bedwaredd law gysylltiad â Beddgelert (gw. t. 20), ac mae'n debyg mai llaw Dafydd Nanmor yw hon. Yn hen gynefin Dafydd Nanmor yr oedd Beddgelert, ond o gofio cyswllt y bardd â theulu'r Tywyn yng Ngheredigion mae'n rhesymol tybio bod y ddau destun o waith DG yn tarddu o'r ardal honno.

Peniarth 51 (Hengwrt 134)

Papur. 152 x 107 mm. 105ff. Mae'r llawysgrif wedi diodde'n enbyd trwy leithdra ac o ganlyniad fe gollwyd testun ar sawl tudalen.

Llyfr amryw yn llaw'r bardd Gwilym Tew o Forgannwg (ceir ei lofnod ar t. 113) wedi'i ysgrifennu ganddo dros gyfnod estynedig, a barnu wrth yr amrywio yn ei lawysgrifen, hwyrach pan oedd yn ifanc. Nid oes unrhyw dystiolaeth fewnol i awgrymu dyddiad: ni ellir ond cynnig dyddiadau tybiedig blodau Gwilym Tew, sef 1460-80. Ymhlith y cynnwys y mae gramadeg, tt. 63-113 (gw. GP xlvi-xlviiii), barddoniaeth (cywyddau beirdd y 14g. yn bennaf), tt. 46-60 a 127-57, yn cynnwys dwy gerdd gan DG, rhifau 135 a 8.

Ar y llawysgrif, gw. Ann E. Jones, *Gwilym Tew: astudiaeth destunol a chymharol o'i llawysgrif, Peniarth 51, ynghyd ag ymdriniaeth â'i farddoniaeth* (PhD Prifysgol Cymru, 1981).

Peniarth 54 (Hengwrt 270 a 368A)

Papur. 240ff. (wedu eu rhifo, i, tt. 1-448, ii, 1-32; tt. 1-256 yw'r gyfrol gyntaf erbyn hyn).

Llawysgrif a fu yn y 19g. yn bedair rhan (gw. RMWL), sydd bellach mewn dwy gyfrol ac oedd yn wreiddiol, mae'n debyg, yn un. Mae'n llawysgrif gymhleth, y casgliad mawr cynharaf o waith cywyddwyr. Ar wahân i waith DG a rhai cywyddau gan feirdd eraill y 14g., canu beirdd ail hanner y 15g. yw'r cynnwys, rhan helaeth ohono yn llaw y beirdd eu hunain. Mae prif destunau'r llawysgrif gan 18 llaw, wyth os nad mwy ohonynt yn feirdd. Mae lle i ddyfalu mai'r bardd Gwilym Tew o Forgannwg piau'r llaw a ysgrifennodd tt. 24-6, 33-112 a 338-51, gan gynnwys y ddwy gyfres rifedig o gywyddau DG: nid oes modd dweud yn bendant mai'r un llaw ydyw â'r llaw yn Pen 51 ond y mae llawer o nodweddion yn gyffredin a gellid cynnig mai llaw Gwilym yn ddiweddarach, yn fwy rhydd, sydd yn Pen 54. Ceir cywydd serch o waith Gwilym Tew, gyda'r llofnod 'GT', yng nghanol y gyfres gyntaf o gerddi DG. Sylwer fod y ddwy gyfres wedi'u rhifo xiii-xx ac i-xx gan awgrymu fod dechrau'r gyfres gyntaf yn eisiau. Mae 24 o gerddi wrth enw DG yn y rhan hon o'r llawysgrif (rhifau 58, A197, 143, 122, 112, 123, 110, 124, 94, 98, 51, 137, 154, 133, 91, 14, 59, 48, 104, 156, 65, 77, 116, 118), ac un (rhif 14) ar tt. 315-17 yn llaw'r bardd Huw Cae Llwyd.

O ran lleoliad, mae Pen 54 yn perthyn i'r de-ddwyrain, i Frycheiniog yn fwy na thebyg. Y person tebycaf i'w gysylltu â'r llawysgrif yw Ieuan ap Gwilym Fychan, Peutun, ger Aberhonddu. O ran dyddiad, ni all fod cyn 1475 (gw. cywydd Huw Cae Llwyd, ii, t. 16). Mae tystiolaeth dyfrnodau'r papur a dyddiadau'r beirdd y ceir eu llawiau yn y llawysgrif yn awgrymu na all ei dyddiad fod lawer yn ddiweddarach na hynny.

Mae'r testunau'n annibynnol ar bob dim arall, er yn debyg i rai Llyfr Wiliam Mathew weithiau. Maent wedi diogelu rhai darlleniadau rhagorol (e.e. *ni thechwn* yn 98.30), ond gwelir tuedd ynddynt i golli llinellau ac i ddrysu eu trefn, ac i newid geiriau dibwys. Y tebyg yw bod gan y copiyydd ffynonellau da, ond ei fod yn dibynnu ar ei gof wrth ysgrifennu.

Peniarth 189 (Hengwrt 265)

Mae rhan o'r llawysgrif gyfansawdd hon (tt. 85–108) yn llaw'r bardd Huw Cae Llwyd tua 1470. Cerddi'r bardd ei hun yw'r rhan fwyaf o'r cynnwys, ond ar t. 89 ceir copi dienw o'r tri englyn sy'n ffurfio rhan gyntaf awdl DG i Lywelyn ap Gwilym (rhif 5).

Llyfr Gwyn Hergest

Collwyd y llawysgrif hon ynghyd â rhai eraill o lyfrgell Wynnstay mewn tân mewn siop rhwymwr llyfrau yn Llundain yn 1810. Gwyddys ei bod yn llawysgrif femrwn sylweddol yn cynnwys casgliad amrywiol o farddoniaeth a rhyddiaith (gw. J. E. Caerwyn Williams, 'Y Llyfr Gwyn o Hergest a Llanstephan 3', B 10 (1939–41), 120–4). Ysgrifennodd Lewys Glyn Cothi bedair o'i gerddi ynddi, gan gynnwys cywyddau i Domas Fychan o Hergest a'i fab Watcyn Fychan y gellir eu dyddio ar ôl 1469. Mae'n debyg mai ar gyfer Watcyn Fychan yr ysgrifennwyd casgliad o gerddi DG yn y Llyfr Gwyn, a hynny yn y 1470au neu'r 80au. Copïodd John Davies 27 o'r testunau hyn yn Pen 49, gan nodi darlenniadau amrywiol wrth 11 o destunau eraill a oedd ganddo eisoes. Mae'n debyg mai Pen 49 oedd ffynhonnell y pedair cerdd yn LIGC 5269 (rhifau 34, 42, 166, 41). Copïwyd 23 o gerddi'r Llyfr Gwyn (a rhif 82 yn rhan o rif 92) yn Wy 2, gan nodi amrywiadau wrth 13 arall (gw. isod ar y ddwy Isgr.). Ar sail y copïau hyn gellir casglu bod 38 o gerddi DG yn Llyfr Gwyn Hergest. Y dystiolaeth gadarnaf dros drefn y cerddi yn y Llyfr Gwyn yw'r gyfres o destunau llawn yn Pen 49, fel a ganlyn:

108, 160, 34, 89, 80, 141, 42, 112, 103, 166, 41, 99, 126, 121, 88, 132, 54, 92, 82, 145, 5, 6, 11, 153, 62, 97, 71

Nid yw tystiolaeth Pen 49 yn ddigon ynddi'i hun i leoli'r 11 o gerddi y nodir amrywiadau ohonynt yn unig, sef: 94, 19, 81, 109, 101, 38, 124, 52, 140, 128, 131. Ond mae tystiolaeth Wy 2 yn gymorth i leoli rhai ohonynt. Mae trefn y 23 o destunau llawn a geir yn Wy 2 fel a ganlyn (y pedair cerdd gyntaf ar ddechrau'r llawysgrif, a'r gweddill ar y diwedd):

160, 34, 109, 89, 101, 62 [dechrau yn unig, wedi'i ddileu], 71, 166, 41, 99, 126, 81, 140, 124, 88, 131, 128, 54, 92, 145, 5, 6, 11

Amrywiadau: 42, 132, 112, 141, 80, 108, 97, 103, 52, 121, 94, 38, 19

Ar sail hyn gellir adlunio trefn cerddi'r Llyfr Gwyn fel a ganlyn:

108, 160, 34, 109, 89, [101], 80, 141, 42, 112, 103, 166, 41, 99, 126, [81, 140, 124], 121, 88, [131, 128], 132, 54, 92, 82, 145, 5, 6, 11, 153, 62, 97, 71 (+ 94, 19, 38, 52)

Ni ellir bod yn gwbl sicr am leoliad y cerddi sydd rhwng bachau sgwâr, gan y gallent fod cyn neu ar ôl y gerdd sy'n dilyn. Ac nid oes wybod ble roedd y pedair sydd rhwng cromfachau ar y diwedd gan eu bod wedi'u diogelu fel darlenniadau amrywiol yn unig yn Pen 49 a Wy 2.

Llansteffan 27 (Llyfr Coch Talgarth)

Casgliad o ryddiaith grefyddol a luniwyd yn yr un sgriptoriwm â Llyfr Coch Hergest tua 1400. Roedd ym meddiant cangen o deulu'r Fychaniaid a drigai yn

Nhalgarth ger Aberhonddu pan ysgrifennwyd tri o gywyddau DG (rhifau 42, 81 a 141) ar dudalen gweili tua diwedd y 15g.

Peniarth 67 (Hengwrt 128)

Llawysgrif bapur o chwarter olaf y 15g. yn llaw'r bardd Hywel Dafu o sir Frycheiniog. Cerddi Hywel ei hun yw'r prif gynnwys, ond fe geir hefyd un o gywyddau DG (rhif 87). Gw. argraffiad diplomatig E. Stanton Roberts, *Peniarth MS 67* (Cardiff, 1918).

Peniarth 55 (Hengwrt 271)

Papur. 149 x 102 mm. 116ff.

Llawysgrif debyg i Pen 54, a llawer o gerddi *autograph* gan feirdd cyfoes. Mae un llaw anhysbys sy'n digwydd yn Pen 54, 55 a 60: ai llaw y perchennog a noddwr? Gellir cysylltu'r llawysgrif hon â Brycheiniog. O ran dyddiad, fe ymddengys na ellir dyddio'r cywydd ar tt. 6-7 cyn 1494, na hwynnw ar tt. 145-8 cyn 1492, na hwynnw ar tt. 176-7 cyn 1497. Ar y llaw arall, anodd cynnig dyddiad i'r llawysgrif lawer ar ôl 1500, yn wyneb dyddiadau'r beirdd a gyfrannodd iddi, gan gynnwys Rhys Brychan, Huw Cae Llwyd a Dafydd Epynt. Ceir testun anghyflawn (geiriau cyntaf y llinellau yn unig) o rif 67 gan law drwsogl anhysbys ar t. 40.

Llawysgrifau'r 16fed ganrif a hanner cyntaf yr 17eg ganrif

Mae'r cofnodi tameidiog mewn llyfrau amryw a welwyd yn y 15fed ganrif yn parhau gyda'r copïau o dair o'r cerddi i lfor Hael ac 'Yr Adfail' (rhifau 11, 12, 16 a 151) yn **Peniarth 182** a ysgrifennwyd gan y bardd-offeiriad Syr Huw Pennant o sir y Fflint tua 1514. Hon ac ail ran Pen 57 yw'r llawysgrifau cynharaf y gellir eu cysylltu'n bendant â'r gogledd-ddwyrain. Bydd angen ystyried llawysgrifau gogleddol eraill o draean cyntaf yr 16eg ganrif, ond er mwyn iawn werthfawrogi eu lle yn y traddodiad mantais fydd edrych yn gyntaf ar ddau gasgliad mawr sydd bellach wedi'u colli, y naill yn ddeheuol a'r llall yn ogleddol. Gellir adnabod y ddau diolch i waith John Davies yn cofnodi ei ffynonellau yn Pen 49.

Llyfr Wiliam Mathew (LIWM)

Gwyddom am fodolaeth y llawysgrif goll hon diolch i nodyn John Davies yn Pen 49, 46a (gw. isod), sy'n nodi ffynhonnell y 43 cerdd gyntaf fel hyn: 'Hyd hyn allan o lyfr M^r W^m Mathew o Landâf'. Soniodd John Davies am y llyfr mewn llythyr at Owen Wynn o Wydir yn 1639, a'i ddisgrifio fel hyn:

Concerning dauid ap Gwillms workes, I have begonne such a collection of them as ye write of, but could not perfecte it, because I knowe I wanted many of his poemes. Mr Willm Mathewe of the Castle of Landaffe had a booke written in paper wth an ould hand wh had many of them, whereof I gotte copie of the one half when I dwelt in those parts. About december was twelueth

moneths, I writte to Mr Michael Robt a Bachelor in divinitie & an anglesey man that dwelled in those parts to gette me ye loane of that booke; & he writte vnto me that Mr Mathewe was dead at Allhallowestide before, & that his Ystate was not then settled, that he was promised ye booke when ye state was settled. I heard not from him since; I meane shortely to write to him. Your servant leuan Jones hath some three or 4 things of his that I have not. Yf he would send me a copie of ye first verse of eny poeme he hath, I would tell him wh' of them I have not, that I may have copies of them; & he shall have the like of me, & have copies of what he hath not. (LIGC 14529, 12-13)

Roedd castell Llandaf ym meddiant y Matheuaid a drigai ym Mrynygynnen drws nesaf i'r castell, ac mae'n debyg, felly, mai un o'r teulu hwn oedd Wiliam Mathew.¹ Mae'n amlwg, fodd bynnag, fod y llawysgrif lawer yn hŷn na chyfnod Wiliam Mathew ei hun. Yn ôl Daniel Huws (MWM 98), awgryma 'written in paper wth an ould hand' ddyddiad cyn 1550. Ond ar sail rhai nodweddion orgraff Gymraeg Canol (*t* am /d/, *c* am /g/, *ei* am /ai/, *eu* am /au/) yn y copi yn Pen 49, gallai'r llyfr fod mor hen â chwarter olaf y 15fed ganrif, tua'r un cyfnod â Pen 54, llawysgrif bapur arall.

Mae'n debyg i John Davies gopïo rhan o Lyfr Wiliam Mathew pan oedd yn ysgrifennydd i'r Esgob William Morgan rhwng 1595 a 1601. Ni lwyddodd i gopïo'r cwbl o gynnwys y llawysgrif, fel y gwelir uchod, ond mae tystiolaeth llawysgrifau cysylltiedig yn awgrymu na ddylid deall 'the one half' yn llythrennol, a bod John Davies wedi codi'r rhan fwyaf mewn gwirionedd (cofier ei fod yn ysgrifennu'r llythyr uchod ryw ddeugain mlynedd ar ôl iddo gopïo'r llawysgrif).

Y llawysgrif gynharaf sy'n gysylltiedig â LIWM yw **Llansteffan 6** (tua 1525), sy'n cynnwys 45 o gerddi wrth enw DG.² Nid yw'n sicr bod cerddi DG yn LI 6 yn tarddu'n uniongyrchol o LIWM, gan nad yw eu trefn yn cyfateb ond yn achlysurol i drefn y copïau eraill. Ond mae'r testunau'n debyg iawn i rai Pen 49 a llawysgrifau Llywelyn Siôn, a gellir esbonio'r gwahaniaethau fel esgeulustod neu fympwy ar ran copïydd LI 6. Wrth gwrs, mae'n bosibl bod LI 6 yn gynharach na LIWM, ac os felly rhaid bod cerddi DG wedi'u codi o gysail LIWM. (Prin fod LI 6 yn un o ffynonellau LIWM, gan fod gormod o fân wallau ynddi.) Arwydd arall o berthynas agos yw'r teitlau a geir ar y cerddi sy'n deillio o LIWM yn Pen 49 ac yn LI 6, fel 'Y Seren', ond mae'n bosibl bod y rhain yng nghyfansail LIWM.

Gellir bod yn sicrach mai LIWM oedd ffynhonnell y blociau o gerddi DG yn llawysgrifau Llywelyn Siôn, gan fod eu trefn yn cyfateb yn agos i adran gyntaf Pen 49. Bardd a chopïydd proffesiynol o Forgannwg ar ddechrau'r 17eg ganrif

¹ Efallai fod y llyfr yn eiddo i'r Wiliam Mathew a aned yn 1574 neu 1575 pan welodd John Davies ef yn y 1590au, ond mae'n debyg mai at farwolaeth ei fab, Wiliam Mathew arall, y cyfeirir yn y llythyr uchod. Mae'r ewyllys a luniodd hwnnw ar 24 Ionawr 1636 [1637] i'w chael yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru (LL / 1636 / 31), ond nid oes sôn am unrhyw lyfr ynddi. Ar y teulu gw. C. N. Johns, 'The Castle and Manor of Llandaff', yn Stewart Williams (gol.), *Glamorgan Historian* 10 (Barry, 1974), 177–95.

² Gw. argraffiad diplomatig E. Stanton Roberts, *Llanstephan MS. 6* (Cardiff, 1916).

oedd Llywelyn Siôn,³ ac fe ymddengys mai ei ddull o weithio oedd codi un copi o'i gynsail ac yna ailgopiio hwnnw mewn nifer o lawysgrifau a gomisiynwyd gan noddwyr, sef **Llansteffan 47**, **Llansteffan 48**, **Llansteffan 134**, **Caerdydd 5.44** (Llyfr Hir Llanharan), **LIGC 970** (Merthyr Tudful) a **LIGC 21290** (Iolo Aneurin Williams 4). Oherwydd rhai gwahaniaethau yn y darlenniadau roedd Parry o'r farn mai copi o LIWM, neu efallai gynsail gyfochrog, oedd ffynhonnell Llywelyn Siôn, gw. GDG¹ cxlvi, ond mae damcaniaeth o'r fath yn ddiangen.

Trwy gymharu Pen 49, Ll 6 a llawysgrifau Llywelyn Siôn gellir adlunio cynnwys LIWM yn weddol hyderus fel a ganlyn:

Y Lleuad (58)
 Y Seren (50)
 Morfudd fel yr Haul (111)
 Y Gwynt (47)
 Y Niwl (57)
 Mawl i'r Ceiliog Bronfraith (159)
 Yr Eos a'r Frân (154)
 Yr Euryches (94)
 Anrhegion Dafydd, Madog ac Iorwerth (19)
 Y Don ar Afon Dyfi (51)
 Breichiau Morfudd (93)
 Dan y Bargod (98)
 Merch Fileinaidd (144)
 Siom (107)
 Saethu'r Ferch (81)
 Merched Llanbadarn (137)
 Canu'n Iach (104)
 Penwisg Merch (156)
 Dewiniaeth (A163)
 Bargeinio (142)
 Y Mwdwl Gwair (66)
 Hwsmonaeth Cariad (109)
 Nodwyddau Serch (100)
 Y Galon (102)
 Yr Uchenaid (101)
 Merch, Aderyn a Bedwen (38)
 Campau Merch (124)
 Y Wawr (69)
 Rhagoriaeth y Bardd ar Arall (123)
 Ymddiddan â'r Cyffyllog (52)
 Y Serch Lladrad (133)
 Y Llŵ (140)
 Y Bardd yn Onest (125)

³ Gw. G. J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (Caerdydd, 1948), 157–60; Daniel Huws, *Cynnull y Farddoniaeth* (Aberystwyth, 2004), 28, 34.

Gwawd Morfudd (106)
 Serch fel Ysgyfarnog (75)
 Telynores Twyll (135)
 Sarhau ei Was (74)
 Erfyn am ei Fywyd (128)
 Amau ar Gam (117)
 Llŵ Morfudd (105)
 Yr Adarwr (131)
 Y Mab Maeth (77)
 Y Ffenestr (65)
 Llychwino Pryd y Ferch (115)

Heblaw'r ddwy gerdd gyntaf mae'r drefn hon yn seiliedig ar Pen 49. 'Y Lleuad' sydd gyntaf yng nghasgliadau Llywelyn Siôn yn LI 47, LI 134 a C 5.44, ac 'Y Seren' yn ail. 'Y Seren' sydd gyntaf yn LI 6, ond saif ar ddiwedd y casgliad yn Pen 49 (a darn ohoni yn unig o LIWM). A chyn ei gopi o 'Y Seren' ysgrifennodd John Davies, 'ymofyn am gywydd y llevat hevyd val hyn pynkev afrwydd drwy /r/ flwyddyn'. Awgryma'r newid orgraff fod teitl y cywydd wedi'i godi o LIWM. Fe ymddengys, felly, fod dalennau cyntaf LIWM wedi dod yn rhydd ac efallai wedi'u difrodi erbyn i John Davies ei weld.

Ceir 'Gwallt Morfudd' (114), 'Chwarae Cnau i'm Llaw' ((95) a'r awdl i Ifor Hael (11) gyda'i gilydd yn rhan gyntaf LI 6, ac mae'n bosibl eu bod ar ddalennau eraill a gollwyd o LIWM erbyn diwedd yr 16g.⁴ Mae'n debyg bod ffynhonnell gyffredin rhwng LI 6 a llawysgrifau Llywelyn Siôn ar gyfer rhifau 68, 112 a 153, ond nid oes lle i gredu mai LIWM oedd honno. Mae gan Lywelyn Siôn destunau pwysig o 'Marwnad Llywelyn ap Gwilym' (6) a chywyddau'r ymryson (23–30), ond ni wyddys beth oedd ei ffynhonnell ar eu cyfer, nac ychwaith ar gyfer y nifer fawr o gerddi'r apocryffa sydd ar wasgar yn ei llawysgrifau.

Y Vetustus

Unwaith eto, rydym yn ddyledus i John Davies am ein gwybodaeth am y llawysgrif goll hon. Ceir y nodyn hwn yn Pen 49, 85a, yn cyfeirio at y 60 cerdd yn yr adran olaf: 'Quae sequuntur descripta sunt ex vetusto codice membranaceo scripto circa 1526' ('Mae'r rhai sy'n dilyn wedi'u copïo o hen llawysgrif femrwn a ysgrifennwyd tua 1526'). Nododd John Davies ddarlleniadau amrywiol o'r hen llawysgrif wrth 51 o'r cerddi a oedd ganddo eisoes yn Pen 49, gan gyfeirio ati fel 'vetustus'. (Yn yr ychydig achosion lle na nododd ei ffynhonnell dengys y darlleniadau fod yr amrywiadau'n deillio o'r Vetustus.) Mae'r dyddiad manwl yn awgrymu bod tystiolaeth bendant yn y llawysgrif ei hun. Roedd memrwn yn ddefnydd drudfawr a moethus erbyn y cyfnod hwnnw, fel y sylwodd Daniel Huws (MWM 98), ac mae'n debyg, felly, fod y llawysgrif wedi'i chomisiynu gan uchelwr cefnog a ddymunai gael casgliad llawn o gerddi Dafydd ap Gwilym.

⁴ Nid yn llaw Llywelyn Siôn y mae'r copi o rif 11 yn C 5.44, ac mae'r testun yn wahanol i'r un yn LI 6.

Er mai yn Pen 49 y mae'r unig dystiolaeth uniongyrchol dros fodolaeth y Vetustus, mae nifer o lawysgrifau cysylltiedig yn gymorth i sefydlu ei gynnwys. Y bwysicaf o'r rhain yw **Hafod 26** (Caerdydd 4.330), y cyntaf o gasgliadau'r Dyneiddwyr, a luniwyd gan y geiriadurwr Thomas Wiliems o Ddyffryn Conwy tua 1574 (gan gynnwys dwy gerdd yn llaw rhyw Lewys o Hiraethog, gw. nodiadau rhif 12). Nid mater syml yw dweud yn union faint o gerddi sydd wrth enw DG yn H 26, gan fod rhai wrth enwau beirdd eraill hefyd, a phytiau dienw tua'r diwedd, ond a diystyru 14 o gerddi a briodolir i feirdd eraill yn unig (gan gynnwys cywyddau ymryson Gruffudd Gryg), mae yma gasgliad o 165 o gerddi a briodolir i DG (ambell un yn betrus). Ond cofier fod y cerddi a rifwyd 5, 6 a 7 a'r rhai rhwng 161 a 182 ar goll. Ni nodir ffynonellau o gwbl, ac nid oes adrannau clir o fewn y casgliad, ond gellir gwahaniaethu rhwng tair rhan. Mae'r 16 cerdd gyntaf a'r 38 cerdd olaf o ffynonellau anhysbys, a llafar mae'n debyg (gw. ymhellach isod). Ond mae prif gorff y casgliad, sef 112 o gerddi a briodolir i DG ynghyd â 7 o waith beirdd eraill (rhifau 18–135 yn y llawysgrif, ond ceir dau rif 110), yn perthyn yn agos iawn i ran olaf Pen 49 o ran trefn y cerddi ac o ran eu testunau. Mae 60 cerdd Pen 49 i'w cael yn yr un drefn yma, ond bod yn eu plith y cwbl ond pump o'r cerddi y cododd John Davies amrywiadau ohonynt yn unig. H 26 yw'r brif dystiolaeth dros drefn y Vetustus felly. Gellir cymryd bod y rhestr ganlynol yn cynrychioli cynnwys y Vetustus yn agos iawn:

Y Pwll Mawn (59)
 Basaleg (14)
 Ymadael ag Ifor Hael (16)
 Cywydd Mawl i Ifor Hael (13)
 Awdl i Ifor Hael (11)
 Y Cleddyf (71)
 Marwnad Gruffudd ab Adda (21)
 Trech a Gais nog a Geidw (112)
 Breichiau Morfudd (93)
 Y Llw Gau (141)
 Difrawder (80)
 Achau Hiraeth (90)
 I Ddymuno lladd y Gŵr Eiddig (116)
 Angof (121)
 Y Cwt Gwyddau (67)
 Merch Ragorol (130)
 Dyddgu (86)
 Taith i Garu (96)
 Merch, Aderyn a Bedwen (38)
 Galw ar Ddwynwen (48)
 Caru Merch Fonheddig (87)
 Dan y Bargod (98)
 Y Wawr (69)
 Ddoe (110)
 Y Mwdwl Gwair (66)

Llychwino Pryd y Ferch (115)
Gwayw Serch (127)
Sarhau ei Was (74)
Erfyn am ei Fywyd (128)
Niwbwrch (18)
Y Cariad a Wrthodwyd (118)
Dyddgu a Morfudd (92)
Gwadu iddo fod yn Fynach (106)
Yr Het Fedw (113)
Anrhegion Dafydd, Madog ac Iorwerth (19)
Marwnad Madog Benfras (20)
Marwnad Dafydd ap Gwilym (Madog Benfras)
Y Galon (102)
Merched Llanbadarn (137)
Merch yn Ymbincio (138)
Y Drych (132)
Y Serch Lladrad (133)
Y Gwynt (47)
Y Gal (85)
Lladrata Merch (70)
Y Gainc (91)
Dewis Un o Bedair (120)
Dagrau Serch (89)
Rhag Hyderu ar y Byd (108)
Y Cyffyllog (53)
Cyrchu Lleian (43)
Mis Mai a Mis Tachwedd (33)
Nodwyddau Serch (100)
Y Seren (50)
Merch yn Edliw ei Lyfrdra (72)
Gwallt Morfudd (114)
Saethu'r Ferch (81)
Siom (107)
Llw Morfudd (105)
Talu Dyled (99)
Gwahodd Dyddgu (88)
Gofyn Cymod (97)
Y Cloc (64)
Y Deildy (37)
Disgwyl yn Ofer (146)
Cystudd y Bardd (103)
Offeren y Llwyn (39)
Y Lleuad (58)
Y Rhugl Groen (62)
Serch Dirgel (78)
Anwadalrwydd (76)

Gwahanu (139)
Y Penlöyn (A39)
Morfudd fel yr Haul (111)
Cywydd Ymryson Cyntaf GG (23)
Cywydd Ymryson Cyntaf DG (24)
Ail Gywydd Ymryson GG (25)
Ail Gywydd Ymryson DG (26)
Trydydd Cywydd Ymryson GG (27)
Trydydd Cywydd Ymryson DG (28)
Pedwerydd Cywydd Ymryson GG (29)
Pedwerydd Cywydd Ymryson DG (30)
Marwnad Dafydd ap Gwilym (GG)
Marwnad Gruffudd Gryg (22)
Chwarae Cnau i'm Llaw (95)
Cusan (83)
Merch Fileinaidd (144)
Amau ar Gam (117)
Y Llwynog (60)
Hwsmonaeth Cariad (109)
Cyngor gan Frawd Bregethwr (147)
Lluniau Crist a'i Apostolion (4)
Credo (153)
Edifeirwch (119)
I'r Drindod (3)
Merch Gyndyn (143)
Y fun a'r wisg fanaur wych (A176)
Caru dyn ifanc hirwen (A21)
Y Ceiliog Du (162)
I Iesu Grist (152)
Y Niwl (57)
Y Bardd a'r Brawd Llwyd (148)
Ymddiddan â'r Cyffyllog (52)
Yr Eira (A118)
Rho Duw hael rhadau helynt (A131)
Y Don ar Afon Dyfi (51)
Marwnad Dafydd ap Gwilym (lolo Goch)
Tri Phorthor Eiddig (68)
Yr Wylan (45)
Cyngor y Bиден (36)
Yr Adfail (151)
Pererindod Merch (129)
Y ferch o'r fynachlog faen (A166)
Ei Gysgod (63)
Y ferch a wnaeth gwayw dan f'ais (A159)
Telynores Twyll (135)
Gerlant o Blu Paun (134)

Y Fiaren (56)
Dychan i Rys Meigen (31)

Yr Eos a'r Frân (154)
Yr Euryches (94)
Yr Uchenaid (101)
Canu'n Iach (104)
Serch fel Ysgyfarnog (75)
Yr Annerch (42)

Yr unig gerddi yn y rhestr hon sydd heb fod yn Pen 49 yw wyth cywydd yr ymryson a marwnadau GG a DG i'w gilydd, a'r ddau gywydd apocryffaidd A176 ac A21. Mae'n bosibl bod John Davies wedi penderfynu hepgor A176 ac A21 am ei fod o'r farn nad oeddent yn waith DG, ond sylwer eu bod yn dilyn 'Merch Gyndyn' yn H 26, cywydd a gynhwysodd John Davies ar ddiwedd ei gasgliad, a bod y tair dalen ddilynol yn Pen 49 ar goll. Heblaw hynny, yr unig wahaniaethau o ran trefn yn Pen 49 yw bod 'Y Gal' ac 'Y Ceiliog Du' yn sefyll ychydig yn gynharach yn y rhestr nag yn H 26, a bod 95 a 83 o chwith. Ond mae'r chwe cherdd a nodir ar wahân ar ddiwedd y rhestr yn rhai y tybir eu bod yn y Vetustus, er nad ydynt i'w cael yn H 26, am fod darlleniadau amrywiol o'r Vetustus wedi'u cofnodi wrth y testunau o LIWM a LIGH yn Pen 49, a'r rheini hyd y gellir barnu yn cyfateb i gopiâu Jaspar Gryffyth (gw. isod). Ond ni ellir dweud ble y maent yn perthyn o ran trefn y cerddi, na chwaith pam yr hepgorwyd hwy yn H 26. Ar sail tystiolaeth H 26 a Pen 49 gellir casglu bod cyfanswm o 125 o gerddi yn y Vetustus (a saith o'r rheini yn bendant yn waith beirdd eraill, sef pedwar cywydd ymryson Gruffudd Gryg a'r marwnadau gan Fadog Benfras, Gruffudd Gryg a lolo Goch).

Ychydig iawn o ôl trefnu bwriadus y gellir ei ganfod yn y casgliad fel y saif yn H 26. Mae'n wir bod y cerddi i lfor Hael yn grŵp ar y dechrau, a'r pum cerdd grefyddol yn agos at ei gilydd yn nes ymlaen, a chywyddau'r ymryson yn rhagflaenu marwnadau GG a DG i'w gilydd, a bod y farwnad i Fadog Benfras yn dilyn 'Anrhegion Dafydd, Madog ac Iorwerth'. Ond ar y cyfan mae'r cerddi'n blith draphlith fel y byddent yn cael eu codi oddi ar dafod leferydd, ac yn hynny o beth mae'r casgliad yn debyg iawn i'r un yn LIWM.

Ceir ateg i drefn rhan o'r Vetustus yn M 212 (gw. isod). Mae'r 21 gerdd gyntaf yn cyfateb o ran trefn a thestunau i gyfres yn H 26, sef 'Talu Dyled' (99) hyd pedwerydd cywydd ymryson Gruffudd Gryg (29), gan hepgor 'Gofyn Cymod' (97). Mae'r ffaith fod y gyfres hon yn gorffen cyn diwedd yr ymryson yn awgrymu mai copi anghyflawn o'r Vetustus neu o bosibl ddarn crwydr o'r llawysgrif ei hun oedd y ffynhonnell.

Llawysgrif arall sy'n cynnwys cyfres o gerddi a gyfetyb yn weddol agos i gyfres yn H 26 yw **Caerdydd 2.114** (C 7), casgliad mawr o farddoniaeth amrywiol a luniwyd yn llys Roland Meyrick, esgob Bangor ar gyfer Ficer Woking (Richard ap

Gruffudd) yn 1564–6.⁵ Ceir 74 o gerddi a briodolir i DG ar wasgar ar hyd y casgliad, ond rhwng tt. 825 a 870 y mae bloc o 29 o gerddi (37 os cynhwysir cywyddau'r ymryson ychydig cyn y bloc hwn, er nad oeddent yn yr un man yn y Vetustus) a geir gyda'i gilydd yn H 26, er nad yn yr un drefn yn union. Mae'r testunau hyn hefyd yn debyg iawn i'r rhai sy'n deillio o'r Vetustus, a gellir esbonio gwahaniaethau fel mympwy copiyydd C 7. Mae testunau eraill yn y llawysgrif sydd yn annibynnol ar y Vetustus ac yn rhagori arno weithiau (gw. isod), ond fe ymddengys fod y bloc hwn yn tarddu o'r Vetustus ei hun neu o gasgliad tebyg iawn iddo.

Dwy lawysgrif arall sy'n arddangos cyswllt agos â'r Vetustus o ran testunau'r cerddi er nad o ran eu trefn yw **Gwyneddon 3**⁶ a **Llansteffan 120**, y ddwy wedi'u hysgrifennu gan Jasper Gryffyth rhwng tua 1597 a 1607. Rhyngddynt mae'r ddwy yn cynnwys casgliad o gerddi DG yn nhrefn yr wyddor yn ôl eu llinellau cyntaf (31 o gerddi yn G 3 yn dechrau â'r llythrennau A, B, D, E, F a G; 59 yn LI 120 yn dechrau â'r llythrennau G, H, I, C [yn safle K], LI, M, N, O, P, Rh, S, T, Y ac U). Y Vetustus oedd prif ffynhonnell y casgliad hwn, ond mae'n amlwg bod Jasper Gryffyth yn cymharu'r testunau â llawysgrifau eraill (e.e. G 4 yn achos rhif 66, ac o bosibl rhyw ffynhonnell gysylltiedig â Llyfr Gwyn Hergest yn achos rhif 121), ac fe dynnodd saith cerdd o C 7 (rhifau 13, 15, 16, 40, 44, 73, 142). Cyn y dilyniant trefnus yn G 3 ceir nifer o gerddi wrth enw DG o ffynonellau amrywiol, sef rhif 153 yn eitem gyntaf y casgliad o ffynhonnell anhysbys, 10 o gerddi wedi'u copïo o BM 29 (gw. isod), tair wedi'u copïo o **LIGC 1553** (Rosier Morris, Coedytalwrn) ynghyd ag un o ffynhonnell anhysbys a 4 wedi'u copïo o **Peniarth 99** (yn llaw William Salesbury), copi arall o rif 153, 12 cerdd arall wedi'u tynnu o BM 29 (gw. isod), a chopi o rif 12 o ffynhonnell anhysbys.

Llawysgrif arall sy'n cynnwys cerddi a dynnwyd yn uniongyrchol o'r Vetustus, yn ôl pob golwg, yw **Bangor (Mostyn) 17** a ysgrifennwyd gan law addysgedig dda o ail hanner yr 16eg ganrif. Pum dalen yn unig sy'n weddill o'r llawysgrif, a'r rheini allan o'u trefn, felly ni ellir dweud faint o gerddi DG oedd yn y casgliad hwn, ond mae'r rhifau wrth y cerddi yn awgrymu bod o leiaf 75 yno yn wreiddiol. O'r naw cerdd sydd yno heddiw mae testunau wyth yn cyfateb yn agos i rai'r Vetustus (rhifau 39, 42, 58, 97, 101, 103, 104 ac 154), ac mae'r llall yn un o'r ychydig gopïau o rif 150 (gyda H 26 a M 212).

Er gwaetha'r tebygrwydd cyson yn eu darlenniadau, nid oedd Thomas Parry yn barod i dderbyn bod testunau H 26, M 212, G 3 a LI 120 (ni wyddai am Ba (M) 17) yn tarddu'n uniongyrchol o'r un ffynhonnell â rhan olaf Pen 49, sef y Vetustus ei hun. Oherwydd y gwahaniaethau achlysurol mynnai fod o leiaf un, a mwy na thebyg ddau neu dri o gopïau rhwng pob un o'r rhain a'u cysail gyffredin (GDG¹ cxviii, cxxi). Ond nid oes rhaid tybio hynny, oherwydd fel y cyfeddyf Parry ei hun (GDG¹ cxvii), gellir esbonio'r gwahaniaethau fel cynigion y copiwyd i wella ar linellau anfoddfaol. Lle roedd llinell yn fyr yn y gysail, yn aml iawn byddai gan

⁵ Gw. y rhagair yn *Rhyddiaith Gymraeg*, I, 67–8.

⁶ Gw. Ifor Williams (gol.), *Gwyneddon 3* (Caerdydd, 1931).

Thomas Wiliems, Jaspas Gryffyth a John Davies wahanol gynigion i'w chywiro (gw. e.e. 58.65). Ar y cyfan mae copiau M 212 yn fwy mecanyddol (am eu bod yn waith amanuensis yn gweithio i noddwr), ac felly'n cynrychioli testunau'r Vetustus yn fwy ffyddlon mae'n debyg. Yn achos 64.31, llinell arall a oedd yn fyr yn y Vetustus yn ôl pob golwg, gwelir yr un cynnig i lenwi'r bwlch yn LI 120 a Pen 49, sef *drwy'r gwas*. Mae'n annhebygol y buasai'r ddau gopiwydd wedi taro ar hyn yn annibynnol, a'r ffordd symlaf o esbonio'r gyfatebiaeth yma ac mewn ambell fan arall yw cymryd i Jaspas Gryffyth ysgrifennu ei ddarlleniad wrth ymyl y ddalen (neu o bosibl mewn bwlch yn y testun) yn y Vetustus ei hun ac i John Davies ei godi i'w destun ef.

Wedi sefydlu hyd a lled y casgliad o gerddi a geid yn y Vetustus, mae'n bryd troi'n ôl at ei ragflaenwyr, sef llawysgrifau cynharach neu gyfoes sy'n deillio o'r un traddodiad, a hwnnw mae'n debyg yn draddodiad llafar hylif y cofnodwyd darnau ohono ar wahanol adegau yn ei ddatblygiad. Y gynharaf o'r rhain, a'r unig un sy'n dyddio o'r 15fed ganrif, yw Pen 48 (gw. uchod). Fel y gwelwyd, cynnwys hon wyth o gerddi (yr un olaf yn anghyflawn), ac roedd pob un i'w cael yn y Vetustus. Trefn cerddi Pen 48 yw rhifau 83, 22, 144, 117, 60, 147 a 4, 153, ac fe welir bod y rhain gyda'i gilydd, yn yr un drefn bron yn union (ond gyda dwy gerdd arall yn eu plith) yn H 26. Mae'r testunau'n debyg iawn i rai'r Vetustus ar y cyfan, a lle ceir cyfle i gymharu'r ddau â fersiynau annibynnol gwelir eu bod yn rhannu rhai gwallau (e.e. 144.5, 117.11 a 22). Ar y llaw arall, mae testunau Pen 48 yn well na rhai'r Vetustus mewn sawl man (e.e. 60.20, 83.4, 117.4), ond maent hefyd yn cynnwys ambell ddarlleniad gwallus sy'n gywir yn neilliaid y Vetustus (e.e. 60.3), ac felly mae'n annhebygol mai Pen 48 oedd ffynhonnell y cerddi hyn yn y Vetustus. Y peth tebycaf yw bod y traddodiad a gynhyrchodd destunau'r Vetustus yn bodoli eisoes i ryw raddau yng nghanol y 15fed ganrif, ac mai amlygiad cynnar o ran o'r traddodiad hwnnw a geir yn Pen 48, a hynny efallai yn y de-orllewin. Mae'r llawysgrifau eraill sy'n dwyn perthynas â'r Vetustus yn tarddu o'r gogledd-ddwyrain, a gellir cynnwys ail ran Pen 57 gyda'r rhain, fel y gwelwyd eisoes.

Mae **BL Additional 14997** (BM 24) yn gasgliad o ganu serch gan feirdd amrywiol a gopiwyd tua 1500, yn y gogledd-ddwyrain fe ymddengys, gan un a oedd o bosibl yn fyfyrwr mewn prifysgol, a barnu wrth y cynnwys. Ceir pymtheg o gerddi wrth enw DG ar wasgar ar hyd y llawysgrif (rhifau A25, A185, 75, A3, A187, 74, A160, 139, 80, A39, 130, 108, A149, 45, 153) ynghyd â rhif 158 yn ddiennw. Roedd naw o'r rhain i'w cael yn y Vetustus hefyd, a cherddi'r apocryffa yw'r lleill. Fel yn achos BM 23, mae'r testunau'n debyg i rai'r Vetustus ar y cyfan, ond maent yn cynnwys darlleniadau gwell yn aml (e.e. 45.9) a rhai llinellau ychwanegol (74, 75, 80). Gwelir cyswllt â BM 23 yn achos rhif A185, ac â Pen 76 yn achos rhifau 74 ac A160.

Copiwyd **Caerdydd 3.4** (C 5) gan y croniclwr Elis Gruffydd yn 1527, ac er bod Elis yn Llundain ar y pryd, mae'n debyg bod ei ffynonellau'n tarddu o'i gynefin yn sir y Fflint. Mae ganddo 20 o gerddi wrth enw DG (rhifau 169, 54, 127, 59, 130,

116, A119, 106, 53, 133, 60, A152, 105, 47, 22, A76, 25, 26, 27, 28). Heblaw rhif 54, dim ond cerddi'r apocryffa sydd heb fod yn y Vetustus. (A sylwer fod rhif 54 yn ail ran Pen 57.) Ceir pedwar o gywyddau'r ymryson yma, ac er eu bod yn annibynnol ar y Vetustus maent yn ochri â'r fersiwn hwnnw yn erbyn un Llywelyn Siôn o ran trefn llinellau, ond gyda rhai llinellau yn eisiau. Ac felly hefyd yn achos rhifau 106 a 130 (cerdd y ceir nifer o gopiâu ohoni yn nhraddodiad y Vetustus ond nas ceir yn unman arall).

Mae **BL Additional 14967** (BM 23) yn gasgliad mawr o farddoniaeth amrywiol a luniwyd yn y gogledd-ddwyrain gan un brif law a ysgrifennai yn fuan ar ôl 1527. Gutun Owain yw'r bardd amlycaf yn y casgliad, ac mae'n debyg fod llawer o'r deunydd yn deillio o'i lawysgrifau ef, efallai trwy lyfrgell Glyn-y-groes. O'r deunaw cerdd sydd wrth enw DG yn y llawysgrif hon (rhifau 47, 20, A185, 75, 9, 7, 90, A76, 62, 106, 56, 13, 87, 133, 115, 128, 3 a 64) mae pymtheg i'w cael yn y Vetustus. Yr eithriadau yw dwy awdl, rhifau 7 a 9, a chywydd apocryffaidd (A76). Awgryma'r ffaith eu bod ar wasgar ar hyd y llawysgrif nad oeddent yn cylchredeg fel grŵp. Nid yw'n syndod, felly, fod rhai ohonynt yn agosach at y Vetustus na'i gilydd. Mae perthynas agos i'w gweld yn achos rhif 115 mewn cyferbyniad â thestun LIWM (e.e. llau 1 a 12), ond dengys y cytundeb â LIWM yn ll. 21 fod BM 23 yn annibynnol ar y Vetustus ac yn rhagori arno mewn manau. Mae testunau BM 23 yn anwastad, weithiau'n cynnwys llinellau nas ceir yn y Vetustus (e.e. rhif 87), ond yn hepgor llinellau hefyd (e.e. rhifau 13 a 75), ac yn hynny o beth maent yn nodweddiadol o drosglwyddiad llafar. Mae trefn y llinellau hefyd yn wahanol yn achos rhifau 47 a 75. Fe ymddengys, felly, fod cerddi traddodiad y Vetustus yn dal i gylchredeg ac i ddatblygu ar lafar yn gynnar yn yr 16eg ganrif. Ond, wrth gwrs, gallai'r testunau hyn fod yn dystion i newidiadau a ddigwyddasai beth amser ynghynt, yng nghyfnod Gutun Owain efallai.

Mae **BL Additional 14866** (BM 29) yn gasgliad mawr o farddoniaeth amrywiol a gopiwyd gan David Johns, ficer Llanfair Dyffryn Clwyd, ar gyfer cyfaill yn 1586–7.⁷ Ni chasglwyd cerddi DG ynghyd mewn un man gan mai trefn thematig sydd i'r llawysgrif, ond ceir 22 wrth ei enw yma a thraw (rhifau 152, 89, A43, 133, 105, 48, A133, 77, 80, 90 (dwy a oedd ynghyd yn y Vetustus), 9, 162, 60, 132, 62, 47, 113, A197, 51, 71, 33, 21). Dengys y rhan fwyaf o'r rhain berthynas agos â thestunau'r Vetustus, ond maent hefyd yn rhagori arnynt weithiau (e.e. rhif 33 lle mae dau gwpled sydd yn eisiau yn fersiwn y Vetustus). Gwelir nifer o ddarlleniadau unigryw ynddynt, a'r tebyg yw bod rhai yn ymgais gan David Johns i drwsio llinellau a ystyriai'n wallus (e.e. 47.63).

Dengys y llawysgrifau hyn mai un amlygiad o draddodiad hir ac eang oedd y Vetustus, ac nid yr amlygiad gorau o bell ffordd. Mae'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r rhain yn perthyn i'r gogledd-ddwyrain yn awgrymu mai yn yr ardal honno y cylchredai traddodiad y Vetustus erbyn hanner cyntaf yr 16eg ganrif, cyn iddo ledaenu ar hyd y gogledd trwy waith copïo'r Dyneiddwyr. Y cerddi mwyaf adnabyddus o fewn y traddodiad hwn, a barnu wrth nifer y copiâu annibynnol, yw

⁷ Gw. Huws, *Cynnull y Farddoniaeth*, 23–8.

rhifau 47 (BM 23, C 5, BM 29, H 26), 130 (BM 24, C 5, H 26) a 75 (BM 23, BM 24, C 7, LI 120). Trwy gymharu testunau mae modd gweld traddodiad llafar ar waith, a'r dirywiad a ddeuai yn ei sgil o ran colli llinellau a symleiddio darlenniadau. Mae hynny wrth gwrs yn ofid yn achos y cerddi niferus nad oes ffynhonnell heblaw'r Vetustus ar eu cyfer.

Er mor ddylanwadol oedd traddodiad y Vetustus yn yr 16eg ganrif, nid dyna unig ffynhonnell cerddi Dafydd ap Gwilym yn y gogledd. Un math o ganu a oedd braidd yn brin yng nghasgliad y Vetustus, fe ymddengys, yw'r awdlau. Ceid yr awdl fawl i lfor Hael (11) gyda rhai o'r cywyddau i lfor, yr awdl i lesu Grist (152), a'r awdl ddychan i Rys Meigen (31) yn eitem olaf yn y casgliad, ond nid oes sôn am yr awdl na'r englynion marwnad i Lywelyn ap Gwilym, yr awdl fawl i Ieuan Llwyd na'r awdlau marwnad i lfor a Nest ac i Angharad, er bod yr olaf yn arbennig o boblogaidd yn yr 16eg ganrif. Mae'r awdlau hyn i'w cael yn BM 23 (rhifau 7 a 9), yn **LIGC 17114** (Gwysanau 25), casgliad mawr o farddoniaeth amrywiol a luniwyd tua 1560 ar gyfer un o deulu'r Treforiaid (rhifau 5, 7, 9, 11), ac yn **Caerdydd 5.167** (Thelwall),⁸ blodeugerdd a gopiwyd ar gyfer Rhisiart Langford o Drefalun tua 1565 (rhifau 5, 7, 9, 11, 17). Mae Gw 25 hefyd yn cynnwys copïau o gywyddau sy'n annibynnol ar y Vetustus, e.e. 'Marwnad Rhydderch' (10), 'Y Cloc' (64), ac 'Y Carw' (46). Er mai llawysgrif o'r gogledd-ddwyrain yw hon, efallai fod rhai o'i thestunau'n tarddu o'r ffrwd a ddaeth i'r amlwg yn y gogledd-orllewin tua'r un adeg.

O ganol yr 16eg ganrif ymlaen daw ffrwd arall o destunau i'r amlwg, yn tarddu o Wynedd Uwch Conwy, ac yn enwedig o Ddyffryn Conwy ei hun. Ni ellir sôn am draddodiad testunol fel yn achos y Vetustus, am nad oes yma gasgliad sefydlog o gerddi yn un man, ond yn hytrach nifer o gerddi'n cylchredeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn y gogledd-orllewin. Perthynai rhai ohonynt i draddodiad y Vetustus hefyd (gan gynnwys yr ymryson â Gruffudd Gryg, a geir gan Wmffre Dafis ac yn M 144, BL 14969 a CM 5), ac yn yr achosion hynny mae'r testunau'n amlwg yn annibynnol ac yn amrywiol eu safon, yn llwgr yn aml ond weithiau'n diogelu darlenniadau da a llinellau a gollwyd yn y Vetustus (gw. e.e. 'Cyngor y Bioden', rhif 36, ac 'Y Gal', rhif 85). Ac fe ddiogelodd y ffrwd hon rai cerddi nas ceid yn y Vetustus o gwbl. 'Trafferth mewn Tafarn' (73) yw'r enghraifft orau o gerdd adnabyddus iawn yn y gogledd-orllewin nas ceid yn y Vetustus (gw. hefyd rifau 6, 8, 10, 32, 35, 44, 46 a 150). Ar y llaw arall ceir tipyn mwy o gerddi'r apocryffa yn y llawysgrifau hyn, a diau mai traddodiad llafar oedd yn gyfrifol am gambriodoli cerddi i Ddafydd ap Gwilym.

Rhestrir isod y prif lawysgrifau sy'n perthyn i ffrwd y gogledd-orllewin, ond dylid pwysleisio bod y patrwm yn aneglur, a bod rhai testunau unigol pwysig yn brigo i'r wyneb yma a thraw yn ail hanner yr 16fed ganrif, e.e. rhif 36 yn Peniarth 82 (yn llaw'r bardd Huw Arwystl) ac yn BL 15038 (llsgr. sydd hefyd yn cynnwys testun pwysig o rif 60), rhif 97 yn LI 163 a rhif 73 yn LI 156. Ac eithriad llwyr i'r

⁸ Gw. Daniel Huws, 'Yr Hen Risiart Langfford', yn B. F. Roberts a Morfydd E. Owen (goln), *Beirdd a Thywysogion* (Caerdydd, 1996), 302–25.

patrwm daearyddol yw **Stowe 959** (BM 48) a gopiwyd yn sir Gaerfyrddin tua 1600, ac sy'n cynnwys testunau annibynnol ar bob dim arall (rhifau 15, 36, 72, 79, 86, 157, A25 ac A145).

Yr amlygiad cynharaf o ffrwd y gogledd-orllewin yw **Peniarth 76**,⁹ casgliad o ganu serch a luniwyd tua chanol yr 16eg ganrif. Anodd lleoli'r llawysgrif yn bendant, ond mae rhai pethau'n awgrymu cyswllt â Môn. Ceir yma 22 o gerddi wrth enw DG (rhifau 80, 118, 13, 14, 16, 119, 63, A13, A15, 133, 78, 74, A64, 148, 127, A166, 130, A161, A137, A160, 62, 64). Heblaw cerddi'r apocryffa roedd pob un o'r rhain i'w cael yn y Vetustus, a sylwer fod tri o'r cywyddau i lfor Hael gyda'i gilydd yma ac yn y Vetustus. Mae rhai o destunau Pen 76 yn rhannu gwallau â thestunau'r Vetustus sy'n awgrymu cynsail gyffredin (e.e. 64.31 lle gadewir y llinell yn fyr fel yr oedd yn y Vetustus fe ymddengys). Ond mae rhai eraill yn amlwg yn annibynnol ac yn rhagori ar destunau'r Vetustus (e.e. 13.31–2 nas ceir yn unman arall), er bod ôl dibynnu ar y cof ac ailwampio mympwyol arnynt yn aml. Gwelir perthynas agos â M 161 (gw. isod) yn achos rhifau 133 a 74 (lle ceir dau gwpled ychwanegol yn gyffredin). Dengys rhai o gerddi'r apocryffa berthynas â C 7 (A13, A15, A161, A 160).

Llawysgrif o Ddyffryn Conwy yw **Mostyn 161** (1558–63), casgliad mawr o farddoniaeth amrywiol a luniwyd efallai ar gyfer teulu Gwydir, ac a oedd ym meddiant Robert Wynn o'r Berth-ddu erbyn dechrau'r 17eg ganrif. Ceir 18 o gerddi wrth enw DG yma, sef dau grŵp o bump (rhifau 62, A187, 104, 78, 79, a 74, 113, 40, 60, 133), ac wyth arall ar wasgar (rhifau 164, 35, A132, 14, 161, 56, 18 a 68). Roedd 12 o'r rhain i'w cael yn y Vetustus hefyd, ac mae testunau M 161 yn rhagori ar rai'r Vetustus weithiau (gw. uchod ar y berthynas â Pen 76). Cerdd brin a geir yma yn gyffredin â H 26 a LIGC 560 yw 'Mawl i'r Haf' (35).

Llawysgrif gynnar arall o'r gogledd orllewin yw C 7 (1565, gw. uchod). Tynnwyd sylw eisoes at y grŵp o gerddi DG ynddi sy'n deillio naill ai o'r Vetustus ei hun neu o'i gynsail uniongyrchol. Mae C 7 hefyd yn cynnwys testunau o gerddi DG sy'n annibynnol ar rai'r Vetustus ac yn rhagori arnynt weithiau. Ceir grŵp o 12 cerdd rhwng tt. 343 a 362 (rhifau 40, 64, 68, 62, A166, 36, A118, 75, 132, 165, 129, 59), un arall o 5 rhwng tt. 604 a 611, tri ohonynt yn gywyddau i lfor Hael (A161, 15, 16, 13, 61), a grŵp o 7 rhwng tt. 719 a 729 (166, 18, 73, A83, A109, A160, 161). Sylwer yn arbennig ar y cwpledi ychwanegol pwysig yn rhifau 36 a 129, a'r darlleniadau rhagorol *eurych* yn 64.31 a *diegr* yn 13.2. Diddorol yw nodi bod y copi cynharaf o 'Trafferth mewn Tafarn' (73) yn sefyll yn union ar ôl y cywydd mawl i Niwbwrch (18); tybed ai'r dref honno oedd y 'dinas dethol'? Mae nifer o gerddi'r apocryffa i'w cael yma a thraw yn y llawysgrif, ac mae'r duedd gynyddol i gambriodoli cerddi serch i DG yn amlwg iawn ynddi, ond dylid nodi hefyd y testunau pwysig o rifau 142, 39, 76, 44, 127 a 148 sydd ar eu pennau eu hunain tua diwedd y casgliad.

⁹ Gw. *Peniarth 76*, gol. W. J. Gruffydd (Caerdydd, 1927).

Lluniwyd rhan gyntaf **Gwyneddion 4** (G 4) tua 1575 ar gyfer y Dyneiddiwr Wiliam Middleton, mae'n debyg (llawysgrif yn llaw Wiliam Salesbury yw rhan ii). Ceir 11 o gerddi wrth enw DG ynddi, a dengys y testunau annibyniaeth ar y Vetustus yn gyson (gw. e.e. 66.16n). Mae'r testun o 'Trafferth mewn Tafarn' yn perthyn yn agos i'r un a geir yn C 7.

Mae'n debyg mai o ffynonellau llafar yn ei gynefin yn Nyffryn Conwy y tynnodd Thomas Wiliems y 16 gerdd gyntaf yn ei gasgliad mawr yn H 26 (gw. uchod), cyn iddo gael cyfle i gopïo'r Vetustus, ac felly hefyd y 38 cerdd olaf. Apocryffa yw nifer o'r cerddi hyn, ond ceir yn eu plith hefyd destunau pwysig o rifau 73, 32, 150, 6, 35, 46, 44 a 55.

Casglwr arall a dynnai ar ffynonellau amgen oedd Wmffre Dafis, ficer Darowen yng ngorllewin sir Drefaldwyn o 1577 hyd ei farw yn 1635. Ceir cerddi DG mewn pedair o'i lawysgrifau a luniwyd ar gyfer cyfeillion uchelwrol. Y casgliad mwyaf ganddo yw'r un yn **BL Additional 14933**, ac mae'n debyg iddo lunio hwn mewn ymateb i gywydd gan Gruffudd Phylib yn gofyn llyfr yn cynnwys cant o gerddi Dafydd ap Gwilym ar ran Rhisiart Fychan o Gorsygedol (cywydd y ceir copi ohono fel eitem gyntaf BL 14933). Mae'r llawysgrif yn anghyflawn bellach, ac nid oes ond 47 o gerddi ynddi. Y brif ffynhonnell, fel y dengys trefn y cerddi yn ogystal â'r testunau, oedd copi John Davies o'r Vetustus yn Pen 49. Awgrymodd Daniel Huws (2000, 101) mai trawsysgrifiad drafft John Davies a ddefnyddiwyd ganddo yn hytrach na Pen 49 ei hun, gan fod rhai o'r bylchau yn nhestunau Pen 49 wedi'u llenwi yn BL 14933. Byddai hynny'n esbonio pam na fu i Wmffre Dafis gopïo'r cerddi eraill yn Pen 49, ond eto gellir esbonio'r darlenniadau fel gwaith dyfalu gan Wmffre Dafis (gw. e.e. 130.13n.). Dim ond dwy gerdd ar ddiwedd BL 14933 sydd heb fod yn Pen 49, sef 'Marwnad Rhydderch' ac 'Y Breuddwyd' (10 a 79). Ceir casgliad arall o gerddi DG yn **Brogyntyn I.2** (Br 2), llawysgrif a luniwyd gan Wmffre Dafis ar gyfer Theodore Price yn 1599 (gw. E. D. Jones, 'The Brogyntyn Welsh Manuscripts', CLIGC v (1947–8), 234–6), ac er yn llai na'r un yn BL 14933 mae hwn yn bwysicach am na wyddys beth oedd ei ffynonellau. Ceir 21 o gerddi wrth enw DG gyda'i gilydd (ond bod rhifau 11 a 12 wedi'u cyfuno'n un gerdd). Er bod 8 o'r rhain yn apocryffa, mae'r testunau i gyd yn bwysig am eu bod yn annibynnol ar draddodiad y Vetustus ac yn cynnwys ambell ddarlenniad gwerthfawr (gw. yn arbennig nodiadau rhifau 20, 33 a 86). Mae'r un peth yn wir am yr ymryson a 'Gwayw Serch' a geir gyda'i gilydd yn nes ymlaen yn y llawysgrif, er bod y testunau ar y cyfan yn bur lwgr o'u cymharu â rhai'r Vetustus (ond gan Wmffre Dafis yn unig y ceir 23.1–2 yn rhan o'r ymryson yn hytrach na 'Gwayw Serch'). Saif yr awdl fawl i Lywelyn ap Gwilym (rhif 5) ar ei phen ei hun, ac mae'r testun yn debyg i'r hyn a geir yn Gw 25 a Thelwall. Ceir yr un testun mewn llawysgrif arall o eiddo Wmffre Dafis, **Bodewryd 1**, ynghyd â chopiau o ddwy awdl arall, rhifau 7 a 9. Copïodd Wmffre Dafis yr un testunau o'r ymryson ynghyd â 'Gwayw Serch' a marwnadau DG a Gruffudd Gryg eto yn **Mostyn 160** tua 1600, ar gyfer aelod arall o deulu Corsygedol yn ôl pob tebyg.

Mae nifer o lawysgrifau eraill o gasgliad Mostyn yn cynnwys testunau annibynnol ar y *Vetustus*, sef **Mostyn 129** (Rhisiart Mostyn, 1574), **Mostyn 144** (Llyfr Coch Nannau, yn llaw William Phylip, tua 1620), **Mostyn 145** (Wiliam Bodwrda, 1644–50), **Mostyn 146** (y rhan gynharaf yn gasgliad o Wydir tua 1560–80, ac ychwanegiadau sylweddol gan Ifan Siôn a Huw Machno yn nechrau'r 17g.), **Mostyn 147** (Edward Kyffin, tua 1577), **Mostyn 148** (chwarter olaf yr 16g.), a **Mostyn 212** (gw. isod). Mae rhai o'r testunau yn llawysgrifau Bangor Mostyn hefyd yn perthyn i'r un ffrwd, e.e. y copi o rif 150 yn Ba (M) 17 (gw. uchod). Cywydd amlwg iawn yn y llawysgrifau hyn yw 'Cyngor y Bioden' (36), ac mae'r ffaith fod nifer o linellau ychwanegol yn rhai o'r testunau yn arwydd clir o ffynonellau llafar.

Copiwyd arall a dynnai ar ffynonellau yn ardal Dyffryn Conwy ar ddechrau'r 17eg ganrif oedd y bardd Huw Machno. Ceir 7 o gerddi DG yn ei law ef yn **LIGC 727**, ac 19 (gan gynnwys yr ymryson) ganddo ef a Thomas Prys o Blasiolyn yn **BL Additional 14969**. Huw Machno a llaw arall a ddechreuodd gopiö **Bodleian e. 1** (Bl e 1) a luniwyd rhwng tua 1612 a 1623, yn ôl pob tebyg ar gyfer Owen Wynn o Wydir. Ysgrifennwyd prif gorff y casgliad mawr o gerddi DG sydd ynddi gan y bardd Ifan Siôn (sylwer ar y cyfeiriad at gasgliad o gerddi DG yn llythyr John Davies at Owen Wynn yn 1639 a ddyfynnir uchod; tebyg mai Ifan Siôn oedd 'your servant leuan Jones'). Ychwanegwyd dau gywydd ar ddechrau'r llawysgrif yn ddiweddarach gan Benjamin Simon. Dwy brif ffynhonnell y casgliad oedd M 146 a H 26. Fe ymddengys fod cerddi wedi'u tynnu o'r ddwy lawysgrif am yn ail ar y dechrau, ynghyd ag o leiaf un ffynhonnell arall lle cafwyd nifer o gerddi'r apocryffa (rhai ohonynt yn digwydd am y tro cyntaf). Gwnaed rhywfaint o ymdrech i drefnu'r cerddi'n thematig, gan osod cerddi i adar ac i'r haf gyda'i gilydd, ac ar y diwedd codwyd yr holl gerddi i Forfudd a oedd yn weddill o H 26, ac yn olaf bedair i Ddyddgu. Mae'n debyg bod y copi-wyr yn tynnu ar fwy nag un ffynhonnell ar gyfer ambell gerdd (enghraifft bendant yw 'Trafferth mewn Tafarn', y codwyd yr wyth llinell gyntaf o ffynhonnell anhysbys cyn troi at H 26 am weddill y gerdd). Ond roedd y ddau fardd hefyd yn barod iawn i drwsio llinellau a welent yn ddiffygiol, ac fe all y berthynas â'r gynsail fod yn aneglur ar yr olwg gyntaf oherwydd hynny. Anaml y mae Bl e 1 yn bwysig o ran sefydlu testun, ond yn achos 'Yr Haf' (34) ac 'Y Brithyll' (160), dwy gerdd nad ydynt i'w cael yn nhraddodiad y *Vetustus*, mae'n cynnig testun amgen i'w gyferbynnu ag un Llyfr Gwyn Hergest.

Casgliad mawr arall a oedd yn gysylltiedig â theulu Gwydir yw **Mostyn 212** a luniwyd ychydig yn ddiweddarach na Bl e 1 gan dri ysgrifydd, yn ôl pob tebyg ar gyfer Robert Wynn o'r Berth-ddu, cefnder i Owen Wynn. Ceir ynddo 176 o gerddi a dynnwyd o ffynonellau amrywiol, y rhan fwyaf ohonynt yn hysbys. Nodwyd uchod fod y gyfres o 21 o gerddi yn y llaw gyntaf wedi'u codi o ddarn o'r *Vetustus* neu gopi uniongyrchol ohono. Fe ymddengys i'r ail ysgrifydd fynd ati i chwilio am gerddi DG mewn llawysgrifau benthyg. Copiodd 15 o gerddi o M 161 (ond rhif 74 o M 148), yna 8 o M 148, ac yna 10 o G 4. Ysgrifennwyd y rhan fwyaf o'r gweddill gan drydedd law ar wahanol adegau, a'i ffynhonnell gyntaf oedd Bl e 1. Copiodd

72 o gerddi i gyd, gan hepgor y rhai oedd yn ei lawysgrif eisoes. Ar ôl y pedair cerdd i lfor Hael gosododd yr awdl farwnad i lfor (17), ac yna aeth ymlaen i gasglu ynghyd gerddi mawl a marwnad eraill (rhifau 9, 10, 5, 6, 8), bum cerdd grefyddol (rhifau 152, 3, A129, 153, 4), dair cerdd i feirdd eraill (rhifau 21, 155, 19), a dau o'r cywyddau i'r brodyr (rhifau A36 a 150). Mae'n bosibl mai M 146 neu ei chynsail oedd ffynhonnell rhifau 17, 5, 6, 8, 152, A129, 153 a 4. Dychwelodd wedyn at y gwaith o gopiö Bl e 1, gan barhau ei gyfres o gywyddau i'r brodyr. Ni wyddys beth oedd ffynonellau'r cerddi yn rhan olaf y casgliad (cerddi 141–76), ond mae nifer ohonynt o ansawdd da, rhai'n perthyn yn agos i'r Vetustus neu ei gynsail (rhifau 20, 51, 71, 80, 83, 90, 97, 110, 112, 119, 132, 138, 147, 151), dwy'n agos i destunau Llyfr Gwyn Hergest (124, 126), ac un arall yn gopi o M 146 (50).

Ysgrifennwyd rhan gynharaf **Cwrtmawr 5** (CM 5) yn gynnar yn yr 17eg ganrif gan un llaw, sef Ieuan (neu lfan) Tudur Owen o Ddugoed, Mawddwy, yn ôl William Maurice (ond nid oes sicrwydd am hynny). Y llaw honno a gopiödd bob un ond dwy o'r 67 o gerddi sydd wrth enw DG (mae cerddi A196 ar ddechrau'r llawysgrif a 156 tua'r diwedd mewn llaw o ddiwedd yr 17g.). Mae'r ffaith bod cerddi DG mewn pedwar bloc yn fras, a cherddi gan feirdd eraill rhyngddynt, yn awgrymu eu bod wedi'u codi o ffynonellau amrywiol. Mae'r testunau'n debyg i rai'r Vetustus weithiau, ond maent yn annibynnol arnynt yn gyson. Diogelodd rai llinellau nas ceid yn y Vetustus (e.e. 16.17–18 a 30.41–2), ac mae nifer o'r cerddi'n rhai nas ceid yn y Vetustus o gwbl. Dengys rhai testunau berthynas â C 7 (e.e. rhif 73), BM 29 (rhifau 47 a 133), Br 2 (rhifau 55 a 114), a hyd yn oed Llyfr Gwyn Hergest (rhifau 54 a 99).

Cafwyd achos i gyfeirio at **Peniarth 49** fwy nag unwaith uchod fel ffynhonnell ein gwybodaeth am y testunau coll yn Llyfr Gwyn Hergest, Llyfr William Mathew a'r Vetustus. Hwn yw'r pwysicaf o gasgliadau'r Dyneiddwyr, diolch i ymagwedd ysgolheigaidd John Davies. Ac yntau'n rheithor Mallwyd o 1604 hyd 1644, gellid meddwl y byddai wedi manteisio ar draddodiadau llafar yr ardal fel y gwnaeth Wmffre Dafis ac eraill. Ond roedd yn well ganddo ddibynnu ar ffynonellau ysgrifenedig cynnar, ac am y rheswm hwnnw ni chafodd gopiâu o 'Trafferth mewn Tafarn', 'Morfudd yn Hen' a rhai cerddi eraill a ymunodd â'r traddodiad ysgrifenedig yn ddiweddar. Fe geir tair llaw bur wahanol yn Pen 49, ond ym marn Daniel Huws gwaith John Davies ei hun ar wahanol adegau yn ystod ei fywyd yw'r tair.¹⁰ Dechreuodd pan oedd yng ngwasanaeth yr Esgob William Morgan yn Llandaf rhwng 1595 a 1601 trwy gopiö'r rhan fwyaf o Lyfr Wiliam Mathew (cerddi 1–43, gw. uchod). Cafodd gyfle wedyn i gopiö'r casgliad o gerddi DG a oedd yn Llyfr Gwyn Hergest, rywbryd rhwng 1600 a 1617. Ysgrifennodd 27 o gerddi yn ail ran Pen 49 (cerddi 44–70), a nododd ddarlleniadau amrywiol yn erbyn 11 arall a oedd ganddo yn y rhan gyntaf (gw. uchod). Ei ffynhonnell nesaf oedd llawysgrif a elwir ganddo yn 'hên Lyfr arall', y cododd 8 testun ohono (cerddi 71–8 = rhifau 74, 113, 53, 40, 90, 60, 14, 16). Heblaw rhif 40 roedd pob un o'r rhain yn y

¹⁰ Daniel Huws, 'John Davies and his Manuscripts', yn Ceri Davies (gol.), *Dr John Davies of Mallwyd* (Caerdydd, 2004), 88–120 (93).

Vetustus, ac mae'r testunau'n bur debyg ar y cyfan, ond yn amlwg yn llwgr mewn manau. Efallai mai llawysgrif o'r gogledd-orllewin oedd honno. Fe ddichon, wrth gwrs, fod cerddi eraill ynnddi nas copiwyd gan John Davies am eu bod ganddo eisoes. Ffynhonnell y 60 cerdd yn rhan olaf Pen 49 oedd y Vetustus ei hun, a nodwyd darlleniadau amrywiol yn erbyn 49 o gerddi a oedd yn y rhannau eraill (gw. uchod). Nododd John Davies ddarlleniadau amrywiol yn rhannau cyntaf Pen 49 o lawysgrif arall a alwai'n 'alius' yn erbyn rhifau 11, 34, 54, 62, 89, 92, 107, 112, 124, 128, 132, 133, 145, 159, 166. Heblaw rhif 128 mae pob un o'r cerddi hyn i'w cael yn CM 5, ac mae darlleniadau CM 5 yn cyfateb yn gyson i'r rhai a nodir. Ieuan Tudur Owen o Ddugoed, Mawddwy, oedd prif gopiwydd CM 5, mae'n debyg (gw. uchod), a gwyddys i'w fab Tudur wneud gwaith copïo i John Davies hefyd (gw. Huws, 2004, 100), ac felly mae'n weddol sicr mai CM 5 oedd 'alius'. Ond nid annichon mai'r 'hên Lyfr arall' oedd 'alius' yn achos rhif 128.

Casglwr diwyd arall o'r gogledd-orllewin oedd Wiliam Bodwrda (1593–1660) o Aberdaron.¹¹ Bu ganddo ddau gasgliad sylweddol o gerddi DG a luniwyd gan gynorthwyr iddo tua chanol yr 17eg ganrif, sef **Wynnstey 2** (Wy 2), sy'n cynnwys 120 o gerddi wrth enw DG, a **LIGC 560**, sy'n cynnwys 101. Bu'r ddwy lawysgrif yn nwylo William Morris yn y 18fed ganrif, a chyfeiria atynt yn BL 14932 (gw. isod) fel 'Maes-y-porth 1' a 'Maes-y-porth 2'. Nododd William Morris amrywiadau hefyd o lawysgrif goll a elwir ganddo yn 'Llyfr Hir Nyffryn', a chyfetyb y darlleniadau'n gyson i rai Wy 2. Nodweddd hynod yn Wy 2 yw'r nifer fawr o linellau ychwanegol yma a thraw nad ydynt i'w cael yn yr un testun llawysgrif arall (heblaw'r copïau o Wy 2), ac sydd yn amlwg yn ffugiadau bwriadol (gw. GDG¹ cxli–ii, a thestun Wy 2 ar gyfer rhifau 28, 29, 30, 37, 38, 45, 48, 51, 52, 53, 56, 57, 60, 63, 64, 68, 69, 70, 74, 75, 93, 97, 98, 107, 108, 109, 113, 114, 115, 116, 117, 144, 146, 147). Gan nad ychwanegwyd unrhyw linellau i'r 23 cerdd ar ddechrau a diwedd y llawysgrif a godwyd o Lyfr Gwyn Hergest (gw. uchod), mae'n rhesymol cymryd bod y llinellau hyn i'w cael yn ffynhonnell Wy 2. A chan fod William Morris yn nodi rhai o'r llinellau ychwanegol ymhlith darlleniadau Llyfr Hir Nyffryn yn BL 14932, mae'n debyg (er nad yn hollol sicr) mai'r Llyfr Hir oedd y ffynhonnell honno. Fodd bynnag, mae testunau prif gorff Wy 2 yn ymdebygu'n gyson i rai'r Vetustus, ond bod ôl ailwampio arnynt yn aml, peth ohono er mwyn symleiddio'r ystyr neu wella'r gynghanedd, a pheth yn ymddangos yn hollol fympwyol. Ac mae'r un peth yn wir am destunau LIGC 560, er nad oes cyswllt o gwbl rhwng y ddau gasgliad. Y Vetustus oedd prif gysail y ddau, ond rhaid bod o leiaf un ffynhonnell rhyngddynt a'r gysail honno. Fe ymddengys mai method copiwyd William Bodwrda (neu eu ffynonellau) oedd dethol cerddi o'r Vetustus ar antur, a mynd yn ôl wedyn i godi cerddi eraill ohono'n fwy systematig. Oherwydd yr ailwampio helaeth nid yw'r cyswllt â'r Vetustus yn hawdd ei weld bob amser, ond lle ceir cyfle i gymharu â fersiynau eraill mae gwallau cyffredin yn profi perthynas. Ac mae'r ffaith bod rhai o gerddi'r ddau gasgliad i'w cael yn nhraddodiad y Vetustus yn unig (e.e. rhifau 37, 134, 146) yn brawf pellach mai'r

¹¹ Gw. R. Geraint Gruffydd, 'Llawysgrifau Wiliam Bodwrda o Aberdaron (a briodolwyd i John Price o Fellteyrn)', CLIGC viii (1953–4), 349–50; Dafydd Ifans, 'Wiliam Bodwrda (1593–1660)', CLIGC xix (1975–6), 300–10; Huws, *Cynnull y Farddoniaeth*, 30–32.

llawysgrif honno oedd y gynsail. Ond mae ambell un o destunau'r ddwy lawysgrif yn tarddu o ffynonellau annibynnol ar y Vetustus, ac fe geir copïau pwysig o rif 16 yn eitem olaf yng nghasgliad Wy 2, ac o rifau 35 a 73 yn LIGC 560. Nid oes wybod beth oedd ffynhonnell y rhain (ond cofier mai un o deulu'r Berth-ddu yn Nyffryn Conwy oedd mam Wiliam Bodwrda). Dwy lawysgrif arall o eiddo Wiliam Bodwrda yw **Llansteffan 122** sy'n cynnwys rhai o awdlau DG a'r farwnad i Rydderch ab Ieuan Llwyd (rhifau 5, 7, 8, 10 a 31), a M 145 (gw. uchod).

Llawysgrifau'r 18fed ganrif

Ar ôl prysurdeb mawr y Dadeni Dysg cyfnod cymharol dawel o ran copïo cerddi DG oedd ail hanner yr 17eg ganrif, ac ni chafwyd dim casglu o bwys tan ddiwedd y ganrif pan luniodd Samuel Williams o sir Aberteifi ddau gasgliad sylweddol iawn. Y cyntaf oedd **Llansteffan 14**, sy'n cynnwys 163 o gerddi DG. Prif ffynhonnell Samuel Williams oedd BI e 1 a gafodd trwy law ei gyfaill Iago ab Dewi. Cododd bump o gerddi i Forfudd a Dyddgu o ran olaf y llsgr., a'r awdl ddychan i Rys Meigen, ac yna copiodd gyfres o 92 o gerddi. Mae gweddill y cerddi yn LI 14 yn dod o ffynonellau anhysbys, ac yn eu plith y cerddi eraill o ran olaf BI e 1 nas copiwyd eisoes. Mae'r testunau eraill yn perthyn i draddodiad y Vetustus yn bennaf, ond maent yn llwgr yn aml. O gofio i Samuel Williams gopïo BI e 1 yn bur ffyddlon, y tebyg yw mai ei ffynonellau oedd yn llwgr yn yr achosion hyn. Mae rhai o gerddi'r apocryffa yn ymddangos wrth enw DG am y tro cyntaf yn y llawysgrif hon.

Lluniodd Samuel Williams ail gasgliad o gerddi DG yn **Llansteffan 133**, llawysgrif enfawr o farddoniaeth amrywiol a gopiwyd ganddo ef ac Iago ab Dewi yn gynnar yn y 18fed ganrif. Ceir 187 o gerddi DG gyda'i gilydd, yn ogystal â phedair o gerddi apocryffaidd yma a thraw a grŵp arall o chwech yn nes ymlaen. Mae ffynonellau cyntaf y prif gasgliad yn amrywio, gan gynnwys C 52 ac ambell gerdd o BI e 1. Yna codwyd yr holl gerddi a oedd yn LI 14 (heblaw y rhai a gopiwyd eisoes). Ffynhonnell pedair o'r grŵp o chwech oedd BL 14890, ac ymddengys fod un arall yn tarddu o un o lawysgrifau Llywelyn Siôn.

Gwnaeth Margaret Davies o'r Coetgae-du, Trawsfynydd, ddau gasgliad o gerddi DG, y naill tua 1736 yn **Caerdydd 4.156** (C 64), sy'n cynnwys 51 o gerddi, a'r llall tua 1761 yn **Cwrtmawr 129**, sy'n cynnwys 61 heb fawr ddim gorgyffwrdd â'r casgliad cyntaf. Anodd yw olrhain ffynonellau cerddi'r casgliad cyntaf, heblaw tair a dynnwyd o llsgr. Tanybwlech, ond mae llawer ohonynt yn apocryffa, ac mae testunau'r cerddi dilys yn llwgr ar y cyfan. Mae testunau'r ail gasgliad yn nes at draddodiad y Vetustus, ac fe ymddengys fod nifer ohonynt wedi'u tynnu o ddwy llsgr. Jaspas Gryffyth, G 3 a LI 120, er bod parodwydd y copïydd i ailwampio llinellau yn cuddio'r berthynas yn aml.

Fe ymddengys i Richard Thomas (1753–80) ddefnyddio rhai o'r llawysgrifau a fu ym meddiant Margaret Davies wrth lunio'r casgliad o 80 o gerddi DG yn **Llansteffan 186**, a gopiodd yn 1778, pan oedd yn guraid Llanegryn (gw. BC

902). Dywed y copiïdd iddo gasglu'r cerddi 'allan o amryw Lyfrau'. Mae'n anodd adnabod ei ffynonellau i gyd, gan ei fod yn cyfuno testunau mae'n debyg, ond gwelir perthynas â CM 129 yn aml, a thynnodd nifer o gerddi o ddwy lawysgrif Jasper Gryffyth, G 3 a LI 120, ac ambell un o Wy 2.

Casglodd Dafydd Jones, Trefriw (1703–85), gerddi DG mewn tair o'i lawysgrifau, sef **Caerdydd 4.10** (C 84), sy'n cynnwys 19 o gerddi, **BL Additional 10313**, sy'n cynnwys 17, a **BL Additional 10314**, lle ceir dilyniant o 45 o gerddi a 7 arall yn nes ymlaen. Ei ffynhonnell bennaf oedd LIGC 560, un o lawysgrifau Wiliam Bodwrda (gw. uchod), ond tynnodd hefyd o lawysgrifau eraill, gan gynnwys LIGC 11816.

Casgliadau mwyaf a phwysicaf y 18fed ganrif yw rhai'r Morrisiaid. Lluniodd William Morris gasgliad o 171 o gerddi yn **BL Additional 14932** dros gyfnod o 15 mlynedd rhwng 1740 a 1755. BL 14933 (gw. uchod) oedd ei ffynhonnell gyntaf, ond ymddengys iddo adael pedair dalen yn wag ar ôl dalen deitl ei lawysgrif, a'u llenwi yn nes ymlaen â deunydd ychwanegol. Yn gyntaf copiïodd gywydd Gruffudd Phylib o BL 14933, wedyn dair marwnad i DG gan Ruffudd Gryg, Iolo Goch a Madog Benfras, a thair o awdlau DG (rhifau 5, 6 ac 11) wedi'u codi o Wy 2. Yna lluniodd ail ddalen deitl (6r), ac arni'r nodyn canlynol: 'Dechrau Gwaith Dafydd ap Gwilym yr hwn a Gychwynnwyd ei Sgrifennu allan o Amryw hên llyfrau y 5ed Dydd o Ionawr 1740, a'r Drydedd Flwyddyn ar ddeg o Deyrnasiad y Brenin George yr Ail, Ac a Orphen^d o Ddeutu mis Ionawr 1755 An 28 Geo. II Gan Will^m Morris o Gaerdybi. 15 mlynedd y bum yn ei gynull o bell ac agos. W. Morris.' Yn dilyn ceir cyfres o 46 cywydd wedi'u codi o BL 14933, ac yna 10 wedi'u codi o BL 14969. Mae'r 35 cerdd nesaf yn tarddu o amryw ffynonellau, gan gynnwys CM 125, LIGC 5283, a BM 53, casgliad brawd William, Lewis Morris (gw. isod). Sonia William yn ei lythyrau at ei frawd Richard am ddwy lawysgrif fawr o gerddi DG a ddaeth i'w feddiant. Mae'n debyg mai LIGC 560 oedd y llawysgrif â mwy na 80 o gywyddau a gafodd yn 1750 (gw. ML i, 162), ac mae'n bur sicr mai Wy 2, un arall o lawysgrifau Wiliam Bodwrda, oedd y llawysgrif ag yn agos i 120 o gywyddau a gafodd yn 1754 (gw. ML i, 325). Ni chododd ond ychydig o gerddi o LIGC 560, ond aeth ati'n fwy systematig i gopïo Wy 2, a nododd amrywiadau o'r ddwy lawysgrif yn erbyn cerddi a oedd ganddo eisoes, gan gyfeirio atynt fel 'Maes-y-porth 1' (Wy 2) a 'Maes-y-porth 2' (LIGC 560). Llawysgrif arall y codwyd amrywiadau ohoni, ac efallai destunau cyfan hefyd, yw'r un a elwir yn 'Llyfr Hir Nyffryn', un o ffynonellau Wy 2 (gw. uchod). Mae ambell gerdd ganddo o ffynonellau anhysbys hefyd, a rhaid ystyried y posibilrwydd ei fod yn copïo hen destunau, yn enwedig yn achos 'Trafferth mewn Tafarn' (73).

Casgliad Lewis Morris yw **BL Additional 14870** (BM 53), llawysgrif a ysgrifennwyd rhwng tua 1744 a 1748 (y rhan fwyaf gan gynorthwydd) ac sy'n cynnwys 243 o gerddi (a thair a ychwanegwyd yn ddiweddarach). Gellir adnabod y rhan fwyaf o'i ffynonellau, nifer ohonynt yn llawysgrifau a oedd yn eiddo i Lewis ei hun ac a aeth wedyn trwy Gymdeithas y Cymmrodorion i'r Llyfrgell Brydeinig,

ac eraill a welodd gan ei frawd Richard yn Llundain ac a aeth wedyn i gasgliad Llansteffan. Ei brif ffynonellau, yn y drefn y defnyddiodd hwy, oedd BM 29 (25 cerdd), BL 14890 (7 cerdd), BM 51 (3 cerdd), BM 31 (8 cerdd), M 160 (yr ymryson a rhif 127), BM 38 (6 cerdd), BM 36 (2 gerdd), LI 169 (2 gerdd), BM 55 (2 gerdd), CM 14 (2 gerdd), BL 14933 (31 cerdd), LI 122 (5 cerdd), LI 133 (89 cerdd), LI 120 (9 cerdd), LI 47 / LI 134 (18 cerdd), CM 5 (2 gerdd), a LI 6 (4 cerdd). Byddai'n tynnu ar fwy nag un ffynhonnell wrth gopïo weithiau, a bu'n ddigon parod i ddiwygio'r testun ar brydiau (gw. e.e. 45.23n.).

'Digon digrif fyddu ei hargraphu, gresyn bod cymaint o honynt mor fasweiddgar', meddai William Morris am gerddi Dafydd ap Gwilym mewn llythyr at ei frawd Richard yn 1750 (ML i, 163), ond ni ddaeth dim o'r syniad tan y genhedlaeth nesaf. Yn 1768 aeth Owen Jones ('Owain Myfyr') ati i gyfuno casgliadau William a Lewis Morris, gan ychwanegu ychydig o englynion. Naturiol yw cymryd mai ei lawysgrif ef, **Bangor 6**, oedd y sylfaen ar gyfer y gyfrol a gyhoeddodd ef a William Owen Pughe yn 1789, *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym*, fel y tybiodd Daniel Huws.¹² Ond rhoddodd Owain Myfyr ei lawysgrif yn fenthyg i'r Dr Gruffudd Roberts o Ddolgellau, ac nid yw'n glir iddo lwyddo i'w chael yn ôl cyn 1789.¹³ William Owen Pughe wnaeth y rhan fwyaf o'r gwaith golygu ar gyfer BDG, ac fe ymddengys iddo fynd yn ôl at lawysgrifau'r Morrisiaid, gan dynnu hefyd ar lawysgrifau eraill a oedd ar gael yn Llundain i greu testunau cyfansawdd (e.e. 'Yr Wylan', BDG XXVIII, sy'n cyfuno BL 14932 a BM 53, a 'Trafferth mewn Tafarn', BDG CXLII, sy'n cyfuno BL 14932, BM 53 a BL 10314). Oherwydd natur prif ffynonellau'r Morrisiaid, sef BL 14933, Wy 2 a LI 133, traddodiad y Vetustus, a hwnnw ar wedd lygredig ar y cyfan, a welir yn bennaf yn nhestunau BDG. Eifen newydd yn y gyfrol honno oedd ffugiadau lolo Morganwg, sef deuddeg o'r un cywydd ar bymtheg yn y 'Chwanegiad' a dau ym mhrif gorff y casgliad.¹⁴



©Dafydd Johnston 2007

¹² 'Transmission of a Welsh Classic', 103.

¹³ Gw. B vi (1931–3), 240–3.

¹⁴ Gw. G. J. Williams, *Iolo Morganwg a Chywyddau'r Ychwanegiad* (Llundain, 1926), a rhifau A7, 9, 34, 72, 77, 97, 113, 129, 140, 172, 174, 185, 193, a 197 yn rhestr yr apocryffa. Yr unig gerddi yn y 'Chwanegiad' nad ydynt yn waith Iolo Morganwg yw rhifau VIII, X, XI, a XV.